

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



Rhifyn 348 - 60c
Tachwedd 2016

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llanygybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Rhodd i
Siop Londis
Llanybydder**



Tudalen 11

**Cadwyn
y
Cyfrinachau**



Tudalen 25

**Eisteddfod
C.Ff.I.
Sir Gâr**



Tudalen 27

Llongyfarchiadau



Siwan Davies, Cwrt Dulas, Llambod aelod o C.Ff.I. Dyffryn Cothi enillodd Cadair Eisteddfod C.Ff.I. Sir Gâr yn ystod mis Hydref. Enillodd drwy ysgrifennu cerdd yn y wers rhydd ar y testun 'Gwawr' ac fe gafodd ganmoliaeth uchel gan y beirniad y Prifardd Aneirin Karadog.



Yng nghyfarfod cangen Llanybydder o Diabetes UK Cymru ar yr 11eg o Hydref cyflwynwyd sic am £5,000 i Amie Phillips o Swyddfa Cymru Diabetes UK, arian i'w ddefnyddio at waith ymchwil yng Nghymru. Codwyd yr arian trwy elw o £1,000 mewn cyngerdd a gynhaliwyd yn y Llew Du Llanybydder gyda Pharti Bois ar Wasgar ac aelodau Clwb Ffermwyr Ifainc Llanllwni; rhoddion o £425 er cof am Mr Bev Coles; £205 trwy law Ann Milcoy, sef arian a godwyd yn Ffair Fwyd Llambod; £1,000 gan Ferched Cletwr; rhoddion er cof am Dewi Vobe, Llanarth - £1,560; a rhodd o £700 gan Marc a Wendy Jenkins Esgerwen Fach, arian a dderbyniwyd yn lle anrhegion adeg pen-blwydd y ddau yn ddiweddar. Yn ystod y noson bu Amie yn sôn am waith y swyddfa yng Nghaerdydd a diolchodd i aelodau cangen Llanybydder am eu gwaith a'u cefnogaeth ar hyd y blynyddoedd.



Cofiwch
Sul y Cofio
13.11.2016

Cofiwch
Plant Mewn Angen
18.11.2016



Aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog yn ennill Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion unwaith eto eleni. Llongyfarchiadau mawr i chi. Cynhaliwyd yr Eisteddfod ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid nos Iau a dydd Sadwrn, olaf mis Hydref. Mae rhagor o luniau buddugwyr yr ardal ar dudalennau 12 a 13.

Pwyllgorau Ysgol Bro Pedr



Ysgol Bro Pedr - Dewiniaid Digidol – Eleni bydd y Dewiniaid Digidol yn rhoi arweiniad i athrawon a myfyrwyr wrth ddefnyddio gwahanol fathau o dechnoleg.



Ysgol Bro Pedr - Pwyllgor Cymreictod – Mae aelodau'r pwyllgor yn trefnu Clwb Cymraeg yr ysgol ac yn hybu defnydd yr iaith o amgylch yr ysgol drwy amryw o weithgareddau.



Ysgol Bro Pedr – Aelodau'r Cyngor Ysgol – Cyngor o ddisgyblion ysgol sy'n lleisio problemau ar ran yr holl ddisgyblion eraill.

Pêl-droedwyr ifanc



Tîm Pêl-droed Bl. 5 a 6 Adran Llambod a gyrhaeddodd y rownd derfynol yng nghystadleuaeth Pêl-droed yr Adranau yn ddiweddar.



www.facebook.com/clonc360



@Clonc360

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@TwmSTrecks
Hydref 2

Criw #samhelen wedi
joio taith ddifyr ddoe

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@ysgolbydder
Hydref 10

Llongyfarchiadau i Osian
Jones a Shane Evans
am gael eu dewis i
gynrychioli tîm pêl-droed
Dan 8 Caerfyrddin.

#ydyfodol
Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@Clybiaugwawr
Hydref 12

Taith CG Llanllwni:
Gardd Ddirgel Ciliau
Aeron, Gwinllan
Llaethliw, bwyd yn
Aberareon a gwrando
ar Bois y Gilfach.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@BBCRadioCymru
Hydref 22

Cyfle i wyllo taith Gillian
Elisa yn nhacsi @
TOMMORADIO wrth iddyn
nhw deithio o gwmpas
Llanbedr-Pont-Steffan!

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@UrddCeredigion
Hydref 18

Noson colur gwaedlyd
gyda @lois_manon heno
yn Aelwyd Llambod! Pawb
yn joio mas draw! Diolch i
ti Manon!

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@RABICymru_Wales
Hydref 22

Diolch bois Llambod am
fynychu Cinio Cig Eidion
pwyllgor Ceredigion.
Gwerthfawrognwch eich
presenoldeb

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Tachwedd a Rhagfyr Elaine Davies, Penynant, Llanwnnen 480526
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tim Golygyddol Elaine Davies, Siwan Davies, Dylan Lewis,
Marian Morgan a Delyth Morgans Phillips

Dylunydd y mis Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590

e-bost: bedwyr@btopenworld.com

Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwyr Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001

Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922

Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015

Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies

Ffaldybrin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507

Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238

Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856

Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407

Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynon 493325

Llanllwni Eirlys Owen, Cwmderi 481041

Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239

Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257

Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk

Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855

Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015

Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644

Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu e-bostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwch lluniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn lluniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu lluniau plant i'w cynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Bwyta fel ci!

Mae'n braf cael mynd mas am bryd o fwyd weithiau yn lle bod angen paratoi a choginio ar ryw achlysur arbennig, heb son am olchi'r llestri hefyd.

Ond beth fydddech chi'n ei wneud petaech yn methu gorffen eich pryd bwyd mewn bwyty? A yw hi'n dderbyniol i ofyn am fag sborion, neu doggie bag i fynd â'r gweddillion nôl gyda chi?

Dyna a wnes i er mawr gywilydd i fy ngwraig. "Ffili credu bod ti newydd neud na!" ges i, yn ogystal â'r llygaid gwddihw mawr yn syllu arnaf. Ond pam lai? Wedi'r cwbl ron i'n bwriadu talu am y cyfan.

Daw'r enw doggie bag o'r arfer o fynd â gweddillion bwyd yn ôl i'r ci, sy'n rhywfaint o esboniad am y cywilydd efallai. Ond does dim anifail anwes yn ein tŷ ni. Dyw gofyn am fag sborion ddim yn dderbyniol i rai, fel gwisgo jîns i'r capel a'ch pants chi'n dangos!

Yn ogystal â bod yn berson sy'n hoffi cael gwerth ei arian, credaf fod gofyn am fag sborion yn ganmoliaeth am fwyd y lle. Taswn i'n gadael bwyd ar fy mhlât a pheidio gofyn am fag, basai hynny'n awgrymu nad oeddwn wedi mwynhau'r bwyd.

Roedd maint y cyrsiau yn y bwyty hwn yn fawr. Roeddwn yn llawn wedi'r cwrs cyntaf ac roedd popeth mor ffein. Dw i ddim yn un am wastraffu, felly roedd gofyn am fag sborion yn beth call i'w wneud yn fy marn i.

Mewn bwytai yn yr Amerig, mae'r gweinydd hyd yn oed yn cynnig pacio'r bwyd i'r cwsmer. Does dim angen gofyn amdano yno. Ar y llaw arall, dyw e ddim yn beth soffistigedig i'w wneud yn Ffrainc yn ôl pob tebyg.

Rwy'n gwybod ein bod yn byw mewn oes sy'n rhoi pwyslais mawr ar hylendid, ac efallai nad yw bag sborion yn cydymffurfio â'r rheolau bondigrybwyll, ond rydym yn byw hefyd mewn byd sy'n gwastraffu tunelli ar dunelli o fwyd. Credaf felly bod angen dod i'r arfer â gofyn am fag sborion.

Gobeithio galwch chi gnoi cil dros y mater, tra af i i aildwymo'r wled y methais ei bwyta neithiwr!

Cloncyn

Gohebiaeth

Cryno Ddisg Newydd - "Dau fel ni" - Aled ac Eleri

Ydach chi yn chwilio am yr anrheg Nadolig delfrydol?

Mae'r bariton a'r mezzo soprano poblogaidd, Aled ac Eleri Edwards, y pâr priod cyntaf i ennill Rhuban Glas yr un, ar fin rhyddhau Cryno Ddisg o ddeuwadwau amrywiol ac ysbrydoledig.

Mae Aled ac Eleri yn ffermio yng Nghilycwm ger Llanymddyfri, ac Eleri yn wreiddiol o Langernyw yn Nyffryn Conwy. Mae'r ddau yn adnabyddus fel unawdwyr, ac yn canu'n gyson yma yng Nghymru, a hefyd wedi cael profiadau gwerthfawr o berfformio yn Ewrop, Gogledd America ac Awstralia.

Yn ystod y misoedd diwethaf mae'r ddau wedi dewis ystod eang o ganeuon apelgar ar gyfer eu CD. Mae'n gasgliad o'r cyfarwydd a'r newydd, gan gynnwys trefniannau o alawon gwerin, emynau a chaneuon cyfoes. Yn ogystal, mae yna ambell berl clasurol yn wrthgyferbyniad llwyr i ysgafnder a hiwmor ambell gân.

Gwahoddwyd Shân Cothi i ymuno â nhw fel gwestai arbennig ar un o'r caneuon. Mae'n ffrind annwyl i'r ddau, hithau yn enillydd y Rhuban Glas, ac erbyn hyn wedi dychwelyd at ei gwreiddiau trwy ymgartrefu yn Nyffryn Tywi.

Dyma CD i gynhesu'r galon ac yn gydymaith delfrydol wrth deithio yn y car. Mae'n daith gerddorol gynhyrfus i unrhyw un sydd yn mwynhau ac yn gwerthfawrogi cerddoriaeth.

Bydd y CD ar gael cyn y Nadolig mewn siopau Cymraeg ledled Cymru.

Hefyd ar gael ar y wefan www.aledaceleri.co.uk

O Ddifri' wrth Ddwli y Dolig hwn

Eleni, cynhelir Diwrnod Siwmpwr Nadolig Achub y Plant ddydd Gwener, 16eg o Ragfyr.

Bydd y dwli yn digwydd ledled Cymru wrth i gefnogwyr mewn ysgolion, swyddfeydd a chartrefi adael eu gwisg arferol yn y cwpwrdd, a gwisgo rhywbeth

dwl, Nadoligaidd er budd Achub y Plant.

Rydym yn annog pobl i addurno eu siwmpwr yn y dull gwirionaf bosib - ewch amdani!

Ond mae ochr ddifrifol i'r holl ddwli hefyd. Drwy wisgo siwmpwr wirion a chyfrannu £2 tuag at waith Achub y Plant (£1 os ydych mewn ysgol) bydd yr holl arian a gesglir yn mynd tuag at helpu plant mwyaf bregus y byd; boed hynny mewn gwersyll i ffoaduriaid neu ardaloedd rhyfelgar, yn dioddef o newyn neu drychineb naturiol, neu'n byw mewn tldi yma yng Nghymru. Drwy wisgo siwmpwr wirion byddwch yn ein cynorthwyo i fynd i'r afael â phroblemau difrifol tu hwnt.


Pecyn Codi arian Cymraeg ar gael i ysgolion a'r cyhoedd. Gellir cofrestru ar www.christmasjumperday.org, ac unwaith y byddwch wedi gwneud hynny gellir dewis fersiwn Gymraeg o'r pecyn codi arian i'w lawrlwytho. Mae'r pecyn yn llawn syniadau ar gyfer gweithgareddau creadigol a dwl i sicrhau y bydd eich Diwrnod Siwmpwr Nadolig yn llwyddiant.

Ymysg eraill, bydd siopau WH Smith yn cefnogi Diwrnod Siwmpwr Nadolig Achub y Plant eleni drwy greu dau dedi bêr arbennig o'r enw Benji a Bruno. Gwerthir y tedis mewn siopau WH Smith ledled Cymru a'r DU am £4.99, gyda £1 o bob gwerthiant yn mynd tuag at yr elusen.

Rydym hefyd yn partneru gyda Fisher-Price i newid y stori ar gyfer plant tlota y DU. Rhwng yr 2il o Dachwedd a'r 24ain o Ragfyr 2016, bydd £1 o werthiant 16 o deganau amrywiol o'u cyfres Laugh & Learn sy'n cael eu gwerthu drwy Argos arlein yn mynd tuag at gefnogi ein rhaglen grantiau yn y DU - Bwyta, Cysgu, Dysgu, Chwarae.

Cewch fwy o wybodaeth hefyd ar ein tudalen Facebook @savethechildrenwales a Twitter

@savechildrencym.





Gwresogi â gwledd o'r Gegin

Mae'n gyfnod prysur ofnadwy yn ein ceginau nawr. Gwledda Calan Gaeaf trosodd, a'r esgus nesaf yw'r goelcerth a'r tân gwyllt. Dyma gasgliad o rysetiau fydd yn addas i'w mwynhau y noson honno, ond yn addas i'w paratoi drwy gydol y mis ar amryw achlysur neu'n syml i swper. Gyda'r awr wedi troi, mae'r dyddiau'n byrhau, y tywydd yn oeri, a'r dail yn garped dan draed, mae'n bryd cael gwledd o fwydydd cysurlawn i'n gwresogi.

Mwynhewch gynhesrwydd y gegin,
Gareth

Peli porc a Phasta

Cynhwysion:

1 llwy fwrdd olew	1 winwnsyn
1 ewyn garlleg	750 gm briwgig porc
50 gm briwsion bara	1 melyn ŵy
Ychydig o bersli	500 gm pasta ffres (Penne)
100 gm sbigoglys	100 gm caws Mozzarella
Pot 500 gm saws tomato a pherlysiau	

Dull

1. Trowch y ffwrn i wres 200 ° C, Nwy 6
2. Ffriwch y winwnsyn yn yr olew am tua 5 munud â'r garlleg.
3. Cymysgwch â'r briwgig porc, y bara, ŵy, persli, halen a phupur.
4. Ffriwch yn beli, a ffriwch am tua 10 munud.
5. Gosodwch y pasta mewn dysgl sy'n addas i'r ffwrn, a gorchuddiwch â dŵr berw. Gadewch am 2 funud, yna draeniwch.
6. Rhowch y cynhwysion i gyd yn y ddysgl a chymysgwch yn dda.
7. Rhowch y mozzarella ar ben y cyfan, a phobwch am 15 munud.

Llyffant mewn twll (Toad in the hole)

Cynhwysion

23 owns fflŵr plaen
4 ŵy
340 ml llaeth
1 pecyn 690 gm selsig
3 winwnsyn coch
Ychydig olew, a rosmari wedi'i falu

Dull

1. Trowch y ffwrn i 200° C, Nwy 7
2. Rhidyllwch y fflŵr, a gnewch dwll yn y canol. I mewn â'r wyau a'r llaeth i greu cyteu.
3. Torrwch y winwns yn betalau, a gosodwch mewn tun pobi gyda'r selsig a 3 llond llwy fwrdd olew. Pobwch am 10 munud.
4. Arllwyswch y cyteu a'r rosmari trosodd, a phobwch am 20 -25 munud.

Cwpanau Afal a sbeis (newid o'r afalau taffi traddodiadol)

Cynhwysion

2 afal Bramley
85 gm datys wedi eu torri'n fân
85 gm bricyll wedi eu torri'n fân
2 llwy fwrdd siwgrwr brown medal
1 llwy de sbeis cymysg
Sest a sudd 1 oren

Dull

1. Torrwch y ddau afal yn eu hanner drwy'r canol, a defnyddiwch lwy i dynnu'r cyfan er mwyn creu ogof.
2. Cymysgwch y cynhwysion i gyd, a rhennwch rhwng y pedwar hanner.
3. Gosodwch mewn dysgl addas i'r meicrodon. Arllwyswch y sudd drostynt, a gorchuddiwch â cling-ffilm. Pobwch yn y meicrodon am 5 -7 munud (500 w).
4. Gweinwch â iogwrt neu gwstard.



TACHWEDD

- 4 Cyngerdd Cyhoeddi Gŵyl Cerdd Dant Llandysul a'r Fro 2017 yn Ysgol Bro Teifi, Llandysul am 7:30y.h.
- 4 Cyngerdd gan Kees Huysmans a Chôr Meibion Cwmanna yn Theatr Felinfach am 7:30y.h.
- 5 Noson Tân Gwyllt C.Ff.I. Pontsian yn Neuadd D H Evans, Pontsian am 7.00y.h.
- 5 Noson Tân Gwyllt Llambled, safle Gwili Tractors, 7.00y.h. Trefnir gan y Ford Gron.
- 5 Tân Gwyllt yn y Llew Du am 6.00 o'r gloch.
- 5 Cynhelir noson yng nghwmni John ac Alun a Wil Tân yng Ngwesty Llety Parc, Aberystwyth am 8.00y.h. Mynediad drwy docyn - £10 yr un ar gael o'r Gwesty neu drwy ffonio Megan ar 01970 612768. Holl elw'r noson tuag at waith Elusen Ambiwlans Awyr Cymru.
- 13 Gwasanaeth Sul y Cofio yn Neuadd Bethel, Drefach am 2.00y.p. (yn absenoldeb y gofgofofn).
- 13 Oedfa Sul yr Urdd yn Shiloh Llambled am 5.00y.h.
- 15 Cyfarfod Aelwyd yr Urdd Llambled am 7.00y.h.
- 15 Cymdeithas Hanes Llambled 7.30y.h. yn Hen Neuadd y Brifysgol.
- 19 Eisteddfod C.Ff.I. Cymru yn Neuadd Brangwyn, Abertawe.
- 21 Noson gwis ysgafn am hanes C.Ff.I. Llanwenog yn Neuadd yr Hafod, Gorsgoch am 7:30 y.h.
- 22 Noson yng nghwmni Haydn Lewis o Aberaeron (Talgrwn gynt) yn nhafarn Cefnhafod Gorsgoch am 7.30yh yn siarad am lwybrau cerdded lleol. Trefnir gan Gynghrair Ward Llanwenog.
- 22 Cylch meithrin Llanybydder yn cynnal noson Bingo yn y clwb rygbi am 8.00y.h.
- 25 Bingo CFfI Cwmann yn neuadd y pentref, Cwmann am 7.30y.h.
- 25 - 26 Ffair Grefftau Flynyddol yn Neuadd Pumsaint o 10.00yb - 4.00y.p. Dewis eang o gynnyrch, raffl a lluniaeth. Elw at Gofal Cancr y Fron Cymru. Croeso cynnes i bawb.
- 26 Cinio Dathlu'r 60 yng nghwmni aelodau, cyn-aelodau a chyfeillion C.Ff.I. Llanwenog. Tyglyn Aeron. Cysylltwch â Sioned Davies os am ddod - 07790 856475.
- 26 Cynhelir cyngerdd blynyddol Côr Llanpumsaint a'r Cylch am 7.30y.h. yng Nghapel Tabernacl, Caerfyrddin. Eleni bydd y côr yn perfformio'r Meseia gan Handel.
- 27 Cerddoriath Llambled - Bute Clarinet Quartet, 2.30y.p. Yr Hen Neuadd, Y Drindod Dewi Sant, Llambled.
- 30 Plygu CLONC yn Ffestri Shiloh am 4.00y.p.
- 30 Tip-it yn Ffestri Capel y Cwm, Cwmsychpant am 7.30y.h.

RHAGFYR

- 1 Marchnad Mentergarwch Nadolig Ysgol Llanwnnen yn Neuadd yr Ysgol. 3.30yp - 5.00yh
- 3 Ffair Nadolig ar y cyd gyda Ysgol Llanllwni am 10yb i 2yp. Mwy o fanylion i ddilyn.
- 4 Cymanfa Garolau yng Nghapel y Cwm, Cwmsychpant gyda Lleisiau Bro Eirwyn. Croeso cynnes i bawb.
- 4 Cymanfa Garolau yng Nghapel Brynhafod, Gorsgoch am 7.30. Arweinydd - Enfys Hatcher Davies. Cyfeilyddes - Carys Evans. Artistiaid - Perleisie. Dewch draw i fwynhau naws y Nadolig.
- 3-10 Pantomeim Blynyddol Theatr Felinfach.
- 5 Cynhelir gwasanaeth Plygain am 7.00y.h. yng Nghapel y Coleg Y Drindod Dewi Sant yn Llambled.
- 7 Sioe Nadolig Ysgol Llanwnnen yn Neuadd Eglwys Llanwnnen am 2.00yp.
- 8 Sioe Nadolig Ysgol Llanwnnen yn Neuadd Eglwys Llanwnnen am 7.00yh.
- 17 Carol, Cerdd a Chân yn Eglwys San Pedr am 7.00y.h.
- 25 Cwrdd bore Nadolig yng Nghapel y Cwm, Cwmsychpant am 9.00y.b.

IONAWR

- 7 Cinio Sioe Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog yng Nghefnhafod am 7:30yh
- 12-14 'Teilwng yw'r Oen' yn cael ei berfformio yn Theatr Felinfach. Tocynnau ar werth o'r Theatr - 01570 470697. Corau: Cardi-Gân, Corisma a Meibion y Mynydd.

MAI

- 14 Cyngerdd gan Cardi-Gân yng Nghapel y Cwm, Cwmsychpant.



Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.



Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
Yswirio'n lleol.

Gwasanaethau Yswiriant FUW

21 Stryd Fawr, Llanbed
Ceredigion, SA48 7BG

Swyddfa: 01570 422556

www.fuwinsurance.co.uk

Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y
"Financial Conduct Authority", Rhif Cofrestru 615251.



CELFI CEGIN A 'STAFELL
WELY WEDI'U FFITIO,
ATEGOLION CEGIN,
CYFARPAR TRYDAN,
TEILS WAL A LLAWR

SGWAR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER

01570 480257

www.lifestylekitchensandbedrooms.co.uk

**COMPASS
OFFICE
SUPPLIES**

Am eich holl
ddeunydd swyddfa



Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llanbed, Heol Tregaron,
Llanbed.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

Oh My Cod

Siop Pysgod a Sglodion

**19 Stryd Fawr,
Llanbed**

Oriau Agor:
Mawrth - Sadwrn 12yp - 9yh
Sul - Llun - Ar Gau

CANOLFAN ADDURNO

AA

A

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerus, Polion a thraciau llenni,
gwasanaeth torri allweddi a
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Adran Ddylunio ar flaen y Gad....

Adran Ddylunio Ddyfeisgar Bro Pedr ar Flaen y Gad

Yn dilyn llwyddiant y llynedd yng Ngwobrau Arloesedd CBAC, gwahoddwyd saith disgybl o Ysgol Bro Pedr i arddangos eu gwaith Dylunio a Thechnoleg mewn digwyddiad pwysig yn y Stadiwm SWALEC yng Nghaerdydd. Roedd gwaith disgyblion Bro Pedr yn unig yn ffurfio 10% o'r arddangosfa oedd yn cynrychioli'r gwaith gorau ar Lefel TGAU, UG a Safon Uwch ar draws Cymru.


Dywed Mr Griffiths, Pennaeth yr Adran Ddylunio a Thechnoleg, "Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith bod yr adran yn parhau i fynd o nerth i nerth, mae gennym ni dîm cryf o staff a disgyblion sydd yn dod â chlod mawr i'r adran a'r ysgol. Bu i 70% o'n disgyblion ni dderbyn graddau A/A* yn eu TGAU Dylunio a Thechnoleg (Haf 2016)".

Y disgyblion oedd yn arddangos eu gwaith TGAU oedd Twm Ebbsworth â'i ddarllenfa 'Blue-tooth', Daniel Thomas â'i ddarllenfa ergonomig a Liam Morgan gyda'i ddarllenfa cludadwy gydag elfennau 3D.

Ein cynrychiolaeth UG oedd Iwan Evans gyda'i ffon olau ar gyfer unigolion gydag anableddau. Roedd Iwan wedi sylweddoli yn gynnar yn ystod ei waith ymchwil bod unigolion ag anableddau yn aml yn teimlo yn ynysig am fod aelodau'r cyhoedd yn methu ag adnabod neu uniaethu gyda'u hanabledd. Datblygodd system olau oedd yn rhan o'r ffon gerdded a fyddai'n ffiodd i'r cyhoedd adnabod yr anabledd tra hefyd yn sicrhau diogelwch os ydynt yn cerdded gyda'r hwy.

Y tri disgybl arall o Fro Pedr oedd yn arddangos eu gwaith oedd Betsan Jones, Sarah Thomas a Gareth Jones: roedd y tri yma yn arddangos eu gwaith Safon Uwch. Roedd ffrogiau ansawdd uchel Betsan a Sarah wedi cael eu hysbrydoli gan wahanol ddegawdau. Roedd ffrog glasurol Betsan wedi cael ei hysbrydoli gan y '50au, tra roedd ffrog Sara wedi ei dylanwadu gan ffasiwn y '70au. Roedd cyfwisgoedd dyfeisgar wedi eu cynllunio i gyd-fynd â'r ffrogiau yma hefyd. Roedd bag llaw clasurol 3D Betsan yn eitem hanfodol ar gyfer unrhyw aficionado ffasiwn, tra roedd esgidiau plattform celfydd Sara gyda sodlau 3D yn gam ymlaen o'r gwaith arall oedd yn cael ei arddangos. Roedd Gareth wedi creu cadair olwyn gyda system egni cinetig oedd wedi ei ysbyrdoli gan geir rasio F1. Roedd ei system ef yn galluogi'r defnyddiwr i gadw mewn cysylltiad heb orfod edrych am rywle yn ddi-ddiwedd er mwyn pweru'r system.

Er mwyn ysbyrdoli'r genhedlaeth nesaf o gynllunwyr, roedd yr adran wedi trefnu i 59 disgybl ymweld â'r arddangosfa ac roedd y disgyblion wedi eu hysbrydoli gan y gwaith oedd yn cael ei arddangos. Fel rhan o'r daith, cafodd y disgyblion y cyfle i ymweld ag IKEA sydd yn enwog am gynnyrch dyfeisgar o ran celfi 'flat pack' a chynllunio cyfoes.



Llanllwni

Ysgol Llanllwni

Cynhaliwyd Bore Coffi yn yr ysgol er mwyn cefnogi'r elusen Macmillan. Daeth nifer o rieni a ffrindiau'r ysgol heibio yn ystod y bore. Codwyd y swm o £233.65. Diolch yn fawr i bawb.

Bu'r plant yn cymryd rhan yng ngwasanaeth Cwrdd Diolchgarwch yr Eglwys ar brynhawn Iau, Hydref 3ydd. Diolch i Mrs. Eirlys Owen am gyfeilio. Cafwyd anerchiad pwrpasol gan y Ficer Susie Bale. Dymuniad y plant oedd anfon arian y casgliad sef £63.15 at elusen Macmillan.

Bu chwech o blant yr Adran Iau ym Mhentywyn am bump diwrnod. Cawsant dywydd braf yn gwneud amrywiaeth o weithgareddau yn yr awyr agored a gwneud ffrindiau newydd.

Mae plant yr Adran Iau yn derbyn sesiynau i datblygu eu sgiliau pêl gan Jac Rees, Swyddog Datblygu Rygbi Cylch Llanbed. Mae'r plant yn edrych ymlaen at bob bore Llun i'w weld yn dod.

Mae Pwyllgor Rhieni a'r Ysgol Feithrin wrthi yn trefnu Ffair Nadolig a fydd yn cael ei chynnal yn yr ysgol ddydd Sadwrn Rhagfyr 3ydd o 10 o'r gloch tan 2 o'r gloch. Bydd yna stondinau amrywiol, lluniaeth, adloniant gan y plant ac ymweliad gan Siôn Corn. Croeso cynnes i bawb.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol-

Mis Hydref -
1af - £10 - Nia Evans, Maes-yr-Onnen, Llanllwni.

2ail - £5 - Gwennan Owen, Cwmderi, Llanllwni.

3ydd - £5 - Dewi Davies, Glanafon, Llanllwni.

Cylch Meithrin a Ti a Fi

Cawsom noson lwyddiannus gyda

noson cyri a chwis a gwnaed elw o £674. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi!

Trist iawn yw cyhoeddi bod Miss Ffion wedi ein gadael ni cyn hanner tymor. Dymunwn bob lwc iddi yn ei swydd newydd. Hoffem groesawu Miss Bethan i'n plith ni.

Ti a Fi

Gweithgareddau mis Tachwedd
1/11/16- Operation Christmas Child

8/11/16- Plant mewn angen/bore coffi

15/11/16- Little Mzzz

22/11/16- Apêl Bocs Sgidiau a Cauliflower Cards

29/11/16- Coginio crispis siocled

6/12/16- Crefft Nadolig

Yn ystod Tymor yr Hydref cynhelir Cylch Ti a Fi bob prynhawn dydd Mawrth 1-3yh. Croeso i rieni, gofawyr, mam-gus a thad-cus ddod gyda'u plant i gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau a chael cyfle i gael sgwrs dros banded.

Clwb 100 Eglwys Sant Luc Llanllwni

Canlyniadau mis Hydref
1af 4 tocyn i gêm Scarlets (tymor '16-'17) Gwobr arbennig - Enillydd: Mrs. Betty Davies, Beili Bach, Llanllwni.

2il £15.00—Mrs. Mary Davies, Gwenllan, Llanfihangel ar Arth.

3ydd £10 Mrs Mali Evans, Rylwyn, Llanybydder

4ydd £10 -Arwyn ac Eirynth Thomas, Oakford, Heol Llysonnen, Caerfyrddin

Diolch i bawb am gefnogi

Pen-blwydd

Pen-blwydd hapus i Emyr Evans Cefncoedisaf ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

C.Ff.I. Llanllwni



Nos Wener olaf mis Medi fe aeth pump o ferched y clwb, sef Sioned, Siriol, Ceris, Cathrin a Betsan i ganu dwy eitem yng nghyngerdd blynyddol y Garthen yn yr Hen Ysgol, Llanfihangel ar Arth. Roedd Owain hefyd yn bresennol – a fe oedd â'r dasg o arwain y noson. Braf oedd cael gwahoddiad i ymuno â nhw yno.

Bu ein Cwrdd Diolchgarwch eleni yng Nghapel Gwyddgrug, ar nos Lun y 10fed o Hydref. Braf oedd cael cwmni plant yr Ysgol Sul ac fe gawsom eitemau hyfryd ganddynt. Diolch i Mrs Verona Evans am ganu'r organ ac i'r Parchedig Rheinallt Davies am ei gwmni.

Wel â ninnau yn agosau at y gaeaf, ymarferion yr Eisteddfod sydd wedi mynd â'n hamser y mis hwn. Ond rhaid dweud bod yr ymarferion wedi talu eu ffordd wrth sicrhau cyfanswm o bump cwpan a llu o gardiau.

Dyma'r canlyniadau yn llawn:-

Llefaru dan 16 oed:- 1af - Lowri Davies; Llefaru dan 21 oed:- 1af – Owain Davies; 2ail- Sioned Howells; Meimo :- 1af; Parti Llefaru :- 1af; Creu 'Geo-filter' Snapchat :- 1af – Siriol Howells; Creu cwis dan 16 oed - 2ail – Ceris Howells; Celf dan 26:- 2ail – Siriol Howells; 3ydd – Ceris Howells; Rhyddiaeth dan 26 oed (cystadleuaeth y gadair) :- 2ail - Sioned Howells; Unawd dan 21 oed :- 3ydd – Sioned Howells; Portread o arwr :- 3ydd – Owain Davies; Deuawd neu driawd doniol :- 3ydd – Sion Evans, Hefin Jones a Siriol Howells; Stand-up :- 3ydd – Owain Davies.

Cyhoeddwyd canlyniad y llyfr lloffion ar ddydd Sadwrn yr eisteddfod a daeth llyfr Llanllwni, a oedd wedi ei greu gan Sara Thomas a Luned Jones, yn ail.

Hoffwn fel clwb estyn ein diolch i bob un sydd wedi ein cynorthwyo mewn unrhyw ffordd i sicrhau eisteddfod lwyddianus arall i glwb Llanllwni, ac i'r rhieni am gludo'r aelodau i'r ymarferion! Diolch i chi gyd!



Diolch

Tom Lewis, Pencader yn cyflwyno siec am £3,775 i Phil Harries o Beiciau Gwaed Cymru. Dyma elw taith dractorau a gynhaliwyd yn gynharach eleni. Diolch i bawb am gefnogi ac i Banc Barclays am rodd o £750 dan y cynllun £1 am £1. Mae'r swm yma yn ddigon i gynnal un o'r beiciau i deithio o amgylch y wlad am flwyddyn i drosglwyddo gwaed, meddyginiaethau, plasma, a dogfennau rhwng ysbytai fel bo'r angen.

Erbyn hyn mae Tom wedi codi cyfanswm o £22,180 at wahanol elusennau, ac yn sylweddoli heb gefnogaeth gyrwyr tractorau, noddwyr, a phawb arall sydd yn prynu raffl ac yn y blaen, na fyddai hyn yn bosibl. Felly, diolch yn fawr iawn i bawb.

Llwyddiant i'r ddwy chwaer



Gwennan Lloyd Owen, Llanllwni yn cipio dwy wobwr gyntaf - yr unawd a'r llefaru dan 6 oed a'i chwaer, Alwena Mair yn ennill pedair gwobr gyntaf - yr Unawd a'r Llefaru 8-10, emyn dan 9 a chanu penillion dan 12 oed yn Eisteddfod Felinfach.

Llanllwni

Eglwys Sant Luc Llanllwni

Aeth ein tymor Diolchgarwch heibio yn hwylus. Ar Hydref 6ed bu gwasanaeth plant yr ysgol yn y prynhawn, yn yr Eglwys gyda'r Parch Suzy Bale yn arwain. Am 7 yr hwyr roedd cyfarfod yr Eglwys. Roedd y gwasanaeth yma yng ngofal y Parch. Aled Lewis, Ystrad Meurig ac fe roes neges amserol i bawb. Gwnaeth y plant eu gwaith yn wych yn y prynhawn. Diolch i'r athrawon am eu hyfforddi.

Nos Wener Hydref 7ed cynhaliwyd Swper Cynhaef blynyddol yn y Neuadd Gymunedol. Roedd tua 50 wedi dod i swpera a chymdeithasu, yn blant ac oedolion. Mae'r noson hon yn llwyddiannus bob blwyddyn.

Bydd gwasanaeth am 10.30 ar y 5ed Sul yn Eglwys Llanwenog.

Bydd Bingo blynyddol Eglwys Sant Luc yn y Talardd nos Lun 5ed o Ragfyr.

Ni fydd gwasanaeth Cymun yn Sant Luc ar Dachwedd 13eg er mwyn rhoi cyfle i'r aelodau fynd i Lanybydder, i gymryd rhan yng ngwasanaeth Sul y Cadoediad.

Undeb y Mamau

Fe gwrddon ni ar Hydref 11eg a chawson gwmni Gerald Coles o Bencader. Ei bwnc oedd hanes Plwyf Llanfihangel ar Arth dros y canrifoedd. Mae gan Gerald wybodaeth fanwl am ei ardal, a diolch yn fawr iddo am ei rhannu gyda ni.

Mis nesa bydd Edith, un o'n haelodau, yn sôn am ei thaith ddiweddar i St Petersburg.

Dathliadau 60

C.F.F.I. Llanwenog

Eleni mae C.F.F.I. Llanwenog yn dathlu 60! Dyma rai o ddigwyddiadau'r dathlu:

Cofio

Noson o gwis ysgafn am hanes y clwb. Tachwedd 21ain, Neuadd yr Hafod, 7:30 y.h.

Cinio'r Dathlu

Dathlu'r 60 yng nghwmni aelodau, cyn-aelodau a chyfeillion y clwb. Tachwedd 26ain, Tyglyn Aeron. Cysylltwch â Sioned Davies os am ddod - 07790 856475

Croeso cynnes i bawb!

Cancer Research UK

Noson gyda Clive Edwards

yn y Llew Du Llanybydder

Sadwrn 19 Tachwedd 2016
8 o'r gloch

Llywyddion:
Mr a Mrs Andrew Thomas, Llanllwni

Rhif elusen : 1089464

Llanfair Clydogau

Ffair Grefft Sefydliad y Merched

Braidd yn siomedig oedd yr ymateb i'r Ffair Grefft eleni a gynhaliwyd ddydd Sadwrn Hydref 8fed. Serch hynny daeth nifer o grefftwyr y Pentre ynghyd i arddangos eu gwaith. Roedd y neuadd yn edrych yn hyfryd a diolch am yr ymdrech a wnaethant i ddangos y cyfan ar eu gorau. Cafodd yr ymwelwyr gyfle i edrych a phrynu a chael cymdeithasu dros baned a chacen. Trefnwyd y diwrnod gan aelodau'r mudiad a diolch iddynt am eu holl baratoadau.

Noson y Dewin

Noson o fawr ddisgwyl amdani oedd hon. Pan ddaeth Luke Gravett i'n diddanu ddiwethaf dipyn o amser yn ol roedd wedi creu awyrgylch cyffrous iawn. Wel, ni chawsom ein siomi. Dewin proffesiynol yw Luke sydd bellach yn byw yn Llanllwni. Mae wedi teithio dros y byd yn diddanu pobol. Yn 2015 efe enillodd y Diddanwr Priodasau Gorau pan gynhaliwyd yr achlysur Gwobrwyo Priodasau Cenedlaethol Cymru. Daeth tyrfa fawr ynghyd gyda phob ticed

wedi ei werthu. Roedd y neuadd wedi ei threfnu gyda thua saith grŵp o amgylch byrddau a Luke yn dod o amgylch pob bwrdd yn gwneud triciau anhygoel o glyfar. Roedd y plant wedi eu swyno yn hollol a phawb arall hefyd. Un o'r triciau sy'n aros yn y cof yw hwnw pan ddaeth â bocs tocyn a'i roi ar y bwrdd. Gofynnodd i un o'r plant ddewis carden o'r pac ac ysgrifennu ei enw arni a'i rhoi nôl yn y pac. Yna dangosodd yr holl gardiau iddynt ond nid oedd y garden â'r enw arni yno. Agorodd y blwch tocyn oedd ar y bwrdd a gofynnodd i'r plant beth oedd ynddo. Gwelsant ddarn mawr o iâ yn llanw'r blwch a charden yn yr iâ. Taflodd Luke yr iâ ar y bwrdd a thorodd yn ddarnau mân. Er syndod i bawb dyna lle roedd y garden ac enw'r bachgen arni yn blaen. Roedd pawb wedi eu syfrdanu. Aeth o amgylch pob grŵp yn creu yr un awyrgylch. Noson unigryw iawn. Rydym yn disgwyl yn eiddgar am ei weld yn Llanfair yn fuan iawn eto i'n diddanu.

Dymuniadau Da

Hoffem ddymuno'n dda i Catherine a Nick Woodward sydd

newydd adael yr ardal ar ôl byw yng Nglas y Dorlan am dros ddeg mlynedd ar hugain. Gobeithio y byddant yn setlo yn hapus yn eu hardal newydd yn y Cotswolds. Yr un pryd hoffem ddymuno croeso cynnes i Tom a Janette Mc Pherson sydd newydd symud i Glas y Dorlan o Gaerfaddon. Americanwr yw Tom yn wreiddiol ond y ddau wedi byw yng Nghaerfaddon ers blynyddoedd, Jeanette yn wreiddiol o'r ardal honno. Yn ôl pob sôn maent yn hapus iawn yn eu cartref newydd ac yn hoffi'r ardal yn fawr.

Clwb 100

Enillwyr yr Hydref

Ron Coombes --£20, Angela Skidmore, Jack Hockenhull a Daphne Lewis --£10, Jean Entwistle, Martin Quan, Hilary Williams, Rhodri Davies, Alan Leech a Mathias Williams --£5.

Beth sydd nesaf ?

Nos Sadwrn Tachwedd 17eg. - Noson o fïwsig a dawnsio gyda'r grŵp 'Golden Gekkos.'

Rhagfyr 10fed - Parti Nadolig y Plant.

Adloniant

gan Rhian Dafydd

Theatr
FELINFACH

Bu cwmni It's An Act yma ar 13eg o Hydref yn perfformio drama gomedi Jim Cartright 'Two'.

Trwy gyd ddigwyddiad llwyr yr un ddrama bydd yn cael ei chyflwyno gan Gwmni Theatr Bro'r Preseli ar 16eg Tachwedd, sef 'i', ond trwy gyfrwng y Gymraeg y tro hyn.

Ym mis Hydref hefyd gwelwyd dechrau ar Yr Wyl Ddrama a chafwyd dau berfformiad llwyddiannus iawn o'r ddrama 'Yr Oruchwyliaeth Newydd' gan Ieuan Griffiths. Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu'n ymwneud â'r cynhyrchiad. Bu'r prynhawn Sadwrn 22ain Hydref yn brysur hefyd pan gynhaliwyd Sgwrs yr Wyl. Bu John Edwards yn sgwrsio ag Elenid Jones am fywyd a gwaith ei thad, 'Ieuan Griffiths' sef awdur Yr Oruchwyliaeth Newydd. Yn dilyn y sgwrs lansiwyd Y Llyfrgell Ddramâu Digidol. Mae criw diwyd iawn wedi bod yn brysur yn casglu hen ddramâu a'u digideiddio dros gyfnod o amser.

Hwyl a Hamdden

Mae criw Hwyl a Hamdden wedi cael mis diddorol iawn yn cael hanesion magwraeth tri dyn bonheddig o wahanol rannau o Gymru.

Y cyntaf oedd Y Cynghorydd Lynford Thomas a fu'n sgwrsio

am hanes ei fagwraeth yn y de, yna cafwyd cwmni Aneurin Roberts a fu'n sôn am ei fagwraeth yn y gogledd. Yn olaf, bu Mr John Emrys Jones o Giliau Aeron yn adrodd hanes hen gymeriadau'r ardal. Yna yn ystod yr wythnos cyn yr hanner tymor, cynhaliwyd cwis dan ofal Tess.

Amserlen Gweithgareddau

Dramatic! Clwb drama i ddisgyblion 7-11 oed 4yp - 5yp
Llun - Ysgol T Llew Jones
Mawrth - Ysgol Henry Richard (Campws Uwchradd)
Mercher - Y Gwndwn, Theatr Felinfach

Cyfle gwych i greu ffrindiau newydd, datblygu sgiliau perfformio a drama, a chael lot fawr o hwyl a sbri!

Clwb Dawns i blant 3 - 6 oed - Y Gwndwn, Theatr Felinfach - pob nos Lun am 4yp - 4:45yp

Grŵp Dawns Hip-Hop i bobl ifanc 11-16 oed - pob nos Fawrth am 5:00yp

Tic-Toc - Sesiynau stori, dawns a chân i blant 0-3 oed a'u rhieni - pob bore Gwener am 10yb

Wrth gwrs, mae amser y Panto yn agosáu hefyd! Ydych chi'n gwybod am rywun sy'n hoffi canu, dawnsio ac actio ac sydd ym Ml 9 neu'n hŷn? Ymarferion wedi dechrau bob dydd

Sul o 1:00yp - 5:00yp

Beth Sy' 'Mlaen yn y Theatr?

Hydref tan ganol Rhagfyr - Arddangosfa o waith yr artist Luned Rhys Parri. Bydd ffrwyth ei chyfnod preswyl yn cael ei arddangos yn Theatr Felinfach rhwng Hydref a chanol Rhagfyr.

4/11/16 - Cyngerdd gydag enillydd y Rhuban Glas 2016, Kees Huysmans, Côr Meibion Cwmann a Robin Lyn Evans.

16/11/16 - Cynhyrchiad Cwmni Theatr Bro'r Preseli o 'i' gan Jim Cartright, cyfieithiad John A. Owen. Rhan o Yr Wyl Ddrama.

3-10/12/16 - Y Pantomeim Blynyddol - Y Rwff, Y Twff a'r Wff-Wff - Mae criw hoffus Dyffryn Aeron yn croesawu Gemau Antur Cymru 2016 i'r Dyffryn ac mae'n siŵr bydd sawl helbul ar hyd y ffordd.

12, 13 a 14 Ionawr 2017 - Mae Theatr Felinfach yn cyflwyno cywaith cerddorol a 3 pherfformiad o'r sioe gyfoes, boblogaidd Teilwng yw'r Oen. Mae'r sioe wedi ei seilio ar Y Meseia gan Handel ac mae'n un o'r gweithiau mwyaf adnabyddus yn y byd.

Tocynnau ar werth i'r cyhoedd ar 4ydd Tachwedd 2016.

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A
MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth
mae croeso i chwi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambed
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244



Gwyn Lewis
Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349



Gall y driniaeth yma eich helpu, os
ydych yn dioddef o'r canlynol:

* Blinder / diffyg egni

* Meigrin
- Sciatica

* Irritable Bowel Syndrome

* Menstrual problems

* a mwy

**Os am ragor o wybodaeth
cysylltwch â Carol Rees**

01545 590164

07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

MIS y PAPUR Newydd

Colofn Dylan Iorwerth

Gwers La Paz i Lanbed

Yn stryd fawr Llanbed o'n i ac, yn ddigon naturiol, mi wnes i feddwl am Bolifia. A, dweud y gwir, am La Paz yn Bolifia.

Ar lawer ystyr, mae yna dipyn o wahaniaeth rhwng y ddau le.

Mae un yn ddinas bwysica' a mwya'i gwlad ac yn digwydd bod tuag 11,000 o droedfeddi uwchben lefel y môr ym mynyddoedd yr Andes. Dydi Mynydd Pencarreg, na hyd yn oed Mynydd Llanllwni, ddim cweit yn cymharu â'r rheiny.

Mae yna rannau o La Paz lle mae llawer mwy o gyfoeth nag y gallai pobol Llanbed freuddwydio amdano, hyd yn oed ar Ffordd y Gogledd. Ac mae yna rannau eraill lle mae tlodi llawer dyfnach na dim yn ein profiad ni.

Fyddech chi ddim yn gallu prynu dillad traddodiadol merched La Paz yn Duet na Lambi's na hyd yn oed Lan Lofft ... yn ystod y blynyddoedd diwetha', mae hyd yn oed merched ffasiynol Bolifia wedi ail afael yn yr hetiau crynion a sgertiau llydan eu neiniau. Nid dyna'r steil yn Llanbed.

Er hynny, am La Paz y gwnes i feddwl y diwrnod o'r blaen wrth weld y gweithwyr yn paratoi ffenestri newydd i siop yn Stryd Fawr Llanbed. Yn ôl yr arwyddion yn y ffenest, Greggs y cwmni bara a rols a chacennau sy'n dod yno. Efallai, erbyn hyn, ei bod hi wedi agor.

Os ydi hi, mae hi'n un o fwy na 1,700 o siopau Greggs ar hyd a lled gwledydd Prydain – y cwmni popty mwya' ac un sydd wedi tyfu'n gyflym iawn yn ystod y cwpwl o ddegawdau diwetha'. Mwy nag sydd o Macdonald's.

A Macdonald's wnaeth i fi feddwl am La Paz. Achos Bolifia ydi tua'r unig wlad yn y byd – os nad yr unig un – sydd wedi cael caffis Macdonald's ac wedyn wedi eu gwrthod. Mewn caffi bach yn La Paz y clywais i'r stori.

Bwyta pastai fach o'r enw salteña o'n i ar y pryd, yn brathu un pen a sugno'r grefi sbeislyd ohoni cyn claddu'r cig a'r llysiau y tu mewn. Roedd y pleser yn fwy cyflawn na chnoi ar Big Mac ... a dyna ran o'r pwynt.

Yn ogystal â'r elfen o ddiawledigrwydd sy'n perthyn i Bolifia o dan ei harweinydd brodorol, Evo Morales, roedd y wlad wedi troi cefn ar Macdonald's oherwydd ei bod yn well gan bobol y salteña; doedd dim angen byrgyr pan oedd gan y wlad ei bwyd cyflym perffaith ei hun.

Yn yr un ffordd, mae gan Lanbed eisoes ddigonedd o siopau sy'n gwerthu bara a chacennau a sangwjs; siopau gwirioneddol dda.

Hyd yn hyn, mae Llanbed hefyd wedi llwyddo'n weddol i osgoi mellthith cadwyni sy'n troi pob canol tre' yn union yr un fath. Er fod rhai'n credu bod angen 'yr enwau mawr' i ddenu pobol, mi all tre' fechan greu cymeriad gwahanol iddi hi ei hun.

Y gwahaniaeth efo siopau lleol go iawn ydi fod yr arian yn aros yn lleol hefyd. Mae'r perchnogion a'u gweithwyr yn lleol ac maen nhw'n troi at fusnesau lleol eraill – gan gynnwys cyfreithwyr a chyfrifwyr – er mwyn prynu gwasanaethau.

Yn eu brwydr i ennill mwy a mwy o siâr o'u marchnad ac yn eu heiddgarwch i dalu mwy mewn difidend, tuedd y cwmnïau mawr ydi lladd popeth o'u cwmipas, fel coeden rhy lydan yn lladd blodau. Yr eironi ydi fod siop fel Greggs wedi dechrau'n fychan, fach, mewn popty bach yn Gosforth yng ngogledd ddwyrain Lloegr.

Mae hi'n mynd yn fwy a mwy anodd i siopau bach beth bynnag ac, hyd yn oed ym maes bwyd mewn ardaloedd gwledig, mae'r cadwyni'n ceisio llyncu'r cyfan. A faniau'n teithio cannoedd o filltiroed i ddelifro bwydydd, gan basio dwsinau o siopau bach ar y ffordd.

Efallai fod bwyd Greggs yn dda ac mae'n debyg fod y cwmni hefyd yn gwneud rhai pethau da gydag elusennau ac yn y blaen, ond mi fyddai'n braf meddwl bod rhywfaint o ysbryd La Paz yn bod yn Llanbed hefyd.

Cyfarchion Nadolig

Os ydych am roi
cyfarchion Nadolig
yn Clonc mis Rhagfyr
yn lle danfon cardiau
Nadolig.

Danfonwch eich neges
ar e-bost i

ysgrifennydd@clonc.co.uk

neu yn y post i

Maesglas, Drefach
erbyn

dydd Gwener,

Tachwedd 18fed.

£10 y bocs.



Rhifyn Rhagfyr Yn y Siopau Rhagfyr 1af

Erthyglau, Newyddion
a Llundain i law erbyn

Tachwedd 21ain

The Wash Tub

Heol y Gogledd
(gyferbyn â'r gofologofn)
01570 423647

Gwasanaeth o safon uchel:
smwddio, golchi, sychu
a glanhau.

Ac yn golchi duvets.



Richard Jarman Dip CII, Cert CII(MP)

Partner Rheoli Cyfoeth

01239 613746

07816 923618

Ffordd newydd i reoli eich cyfoeth.

Cynllunio Cylludol | Cynilo a Buddsoddi | Yswiriant a Diogelu | Yswiriant Cartref
Cynllunio ar gyfer Ymddeol | Taliadau Treth | Yswiriant Bywyd | Rheoli Ystad | Morgeisi

Am gyngor ariannol annibynol

Dros bum mlynedd ar hugain o brofiad

Siambre Pendre, 20 Pendre, Abertiefi, Ceredigion. SA43 1JT

07816 923618 ☎ 01239 613746

richardjarman@tpllp.com www.richardjarman.tpllp.co.uk

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwygo cyflawn
ar gyfer pob achlysur:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

Hefyd yn Ystafell Weini cysurus
Clwb Rygbi Llambled yn gwneud:

- Cinio Dydd Sul 12.00 – 2.00
- Partion pen-blwydd ayb
- Ciniawau - Cyfarfodydd
- Bwyd Bedydd - Te Angladdau

*Bwydlenni unigol i ateb eich
gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach*

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:

Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.



Peiriant
Rhostio
Mochyn
ar gael

Cefn Hafod
Gorsgoch
 Cyri bob nos Wener,
 £6 y pen
 Prydiau bwyd ar gael drwy'r
 wythnos
 Nos Lun— Nos Sadwrn
 Bwyd Cartref a Chwrrw da.
 Croeso cynnes i bawb!
 01570 434 238

W.D. Lewis
a'l Fab
 Menter Iaith Ceredigion
 Pumsaint, Llanwrda
 Melin Mark Lane Mill
 Llanbedr Pont Steffan
 Ceredigion SA48 7AG
 Tel: 01570 422540
 Fax: 01570 423644
 www.wdlewis.co.uk
 Hefyd yn
 Broneb Stores
 Pumsaint, Llanwrda
 Tel: 01558 650215

Cegin Coedlannau
 'Bwyd cartref ar gyfer
 pob achlysur'
 * Cacenau pen-blwydd gyda llun
 (ffotograff)
 * Bwffe mawr neu fach
 * Dantethion i de
 * Pwdinau
 * Arlwyro ar gyfer pob achlysur
 Sirian Davies, Coedlannau
 Fach, Cwrtnewydd,
 01570 434 243
 07815 962 045

Alec Page
Gof
 Gwaith metal o safon
 i'r tŷ a'r ardd.
 Dewch i drafod eich syniadau.
 Yr Efail, Barley Mow,
 Llambled.
01570 423955
 www.alecpageblacksmith.co.uk

WILLIAMS & BOURNE
 CYFREITHWYR.
 COMISIYNNWYR LLWON
 Trosglwyddiadau a phob
 gwasanaeth cyfreithiol.
 Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.
1 Sgwâr Harford,
Llambled
01570 422206 01570423540
 A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,
 Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

Taith Cymorth Cristnogol

4-15 Rhagfyr 2016

Ymunwch gyda ni ar daith ar hyd Cymru i gydsefyll â ffoaduriaid.

Mae mwy na 65 miliwn ffoadur yn ein byd heddiw. Mewn ofn, maent yn ffoi gwrthdaro, trychinebau naturiol a thlodi difrifol. Mewn gobaith, maent yn chwilio am le diogel i'w alw'n gartref.



Y Nadolig hwn bydd Cymorth Cristnogol yn cerdded o Fethlehem, Sir Gaerfyrddin, i'r Aifft, Sir Ddinbych, i gydgerdded â'r bobl hyn, ein brodyr a'n chwiorydd. Taith noddedig fydd hi, gyda'r cyfraniadau'n mynd tuag at waith Cymorth Cristnogol yn ymladd tldi'n gyffredinol, sy'n cynnwys gwaith pwysig yn cefnogi ffoaduriaid mewn sawl rhan o'r byd.

Gwahoddwn chi i ymuno gyda ni ar y daith, boed hynny am y daith gyfan neu rannau ohoni, a'n helpu i dynnu sylw at

yr argyfwng ffoaduriaid yn ein byd ac i godi arian tuag at waith Cymorth Cristnogol.

Os nad ydych yn gallu cerdded gyda ni yna beth am ein noddi a gofyn i'ch ffrindiau ein noddi hefyd?

Ar hyd y ffordd cynhelir gwahanol ddigwyddiadau yn yr ardaloedd y bydd y daith yn mynd trwyddynt. Ymunwch gyda ni yn y digwyddiadau hynny a helpwch ni i'w hysbysu yn lleol.

Ein taith trwy Orllewin Cymru

Sul, Rhagfyr 4ydd Bethlehem, Sir Gaerfyrddin – Rhydedwin (ger Talyllychau)

Llun, Rhagfyr 5ed Rhydedwin - Llambled

Mawrth, Rhagfyr 6ed Llambled - Blaenpennal

Mercher, Rhagfyr 7fed Blaenpennal - Aberystwyth

Iau, Rhagfyr 8fed Aberystwyth – Ynyslas (ac ymlaen i'r Gogledd trwy Aberdyfi)

Os am fwy o fanylion am y daith a gwybod sut allech ein helpu, yna cysylltwch ag un o'n swyddfeydd yng Nghymru, edrych ar y wefan: www.cymorthcristnogol.org.uk neu fe allwch ein ebostio i cymru@cymorth-cristnogol.org.

Bydd angen i chi gofrestru a gwneud cais am ffurflen noddi a rhestr cit ar gyfer y daith.

OS BYDDECH CHI YN GALLU CYNNIG LLETY I UN NEU DDAU O GERDDWYR AR EU TAITH

RHOWCH WYBOD

75 Heol Dŵr, Caerfyrddin SA31 1PZ. e-bost - tdefis@cymorth-cristnogol.org Ffôn: 01267 237257

Swyddfa genedlaethol: 029 2084 4646. Swyddfa ganolog: 020 7620 4444.

Diwrnod Shwmae Su'mae yn Llambled



Bu staff Cered, Menter Iaith Ceredigion, yn ymweld â busnesau yn Llambled yn ystod diwrnod arbennig 'Shwmae Sumae' i ddathlu'r Gymraeg. Mae hyn yn sicrhau ymrwymiad gan 50 o fusnesau, grwpiau a mudiadau i Siarter Iaith Ceredigion yn ardal Llambled. Yn y llun mae Cerdin, Rhys a Gwilym Price o Siop Gwilym Price a'i Fab a'i Ferched wedi iddynt dderbyn Tystysgrif Aur.



Steffan Rees, un o staff Cered, Menter Iaith Ceredigion, yn ymweld â busnes Jones Bros, Bwtsiwr, Stryd y Coleg yn ystod diwrnod arbennig 'Shwmae Sumae' i ddathlu'r Gymraeg ac yn cyflwyno Tystysgrif Aur i Simon Hall. Mae diwrnod Shwmae Sumae yn gyfle i staff Cered ailymweld â busnesau a chyflwyno tystysgrifau iddynt.

Cwmsychpant

Barnu Stoc



Ddechrau mis Hydref cynhaliwyd Diwrnod Maes C.Ff.I. Ceredigion. Cafodd Beca Jenkins, Hafan y Cwm, aelod o C.Ff.I. Pontsian [uchod] y wobwr gyntaf am farnu stoc o dan 14 oed a chafodd Owain Jones, Blaenhirbant Uchaf, aelod o C.Ff.I. Llanwenog y 3edd wobwr. Da iawn chi'ch dau.

Cwrdd Diolchgarwch

Ar noson fwyn o Hydref daeth cynulleidfau luosog iawn ynghyd i Gapel y Cwm nos Iau, Hydref 20fed i'r Cwrdd Diolchgarwch blynyddol. Roedd y gweinidog gwadd wedi methu â bod yn bresennol ar fyr rybudd ond ni chafodd neb eu siomi am i ni gael annerchiad gwerthfawr gan weinidog y capel, sef y Parch Wyn Thomas. Diolch iddo am ei neges bwrpasol ac i Eleri Jenkins, Ceulan am ei gwasanaeth wrth yr organ. Diolchodd i bawb am ddod i Gapel y Cwm un waith yn rhagor i Gwrdd Diolchgarwch 2016.

Noson Tip It

Cynhelir Noson 'Tip it' yn Festri Capel y Cwm nos Fercher, Tachwedd 30ain am 7:30 o'r gloch. Croeso i BAWB ymuno yn yr hwyl.

Oedfa Garolau

Cynhelir Oedfa Garolau yng Nghapel y Cwm, Cwmsychpant nos Sul, Rhagfyr 4ydd am 7.30yh. Trefnir y noson gan Leisiau Bro Eirwyn. Artistiaid y noson yw Bois 'Ar Wasgar'. Bydd elw'r noson yn mynd tuag at Uned y Llygaidd yn Ysbyty Glangwili.

Croeso cynnes i chwi i gyd.

Gorsgoch

Sioe Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog

Cynhelir cinio Sioe Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog am 7:30yh nos Sadwrn, 7fed o Ionawr 2017 yng Nghefnhafod. Y siaradwr gwadd bydd y Parchedig Wyn Thomas, Cwmdyllest. Os hoffech ddod i'r ginio ar gost o £16 yr un, rhowch eich enw ac unrhyw anghenion dietegol i Cerys ar 01545 590 772 erbyn y 1af o Ionawr.

O'r Cyngorau Bro



Cyngor Bro Llanllwni

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 12 Medi 2016 am 8.00yh.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Roedd yn bleser gan y Cyngorwyr longyfarch Alwena Mair Owen ar ei llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy a'r Cyffiniau, 2016.

Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion mis Gorffennaf.

Yn dilyn y cyflwyniad a gafwyd gan gwmni RES yng nghyfarfod 11 Gorffennaf 2016, roedd y Clerc wedi holi eto am:

1. Osod llinellau trydan dan ddaear yn hytrach nag ar draws gwlad ar bolion.
2. Uchder y melinau gwynt.
3. Dyfnder y seiliau ar gyfer y twrbinau.
4. Y ffordd fynediad dros dir comin i'r safle.
5. Pam mynd ati i herio dyfarniad adroddiad yr Arolygwr.
6. Pam oedd canfyddiad a diffiniad RES o ffiniau'r tir a adwaenir fel Mynydd Llanllwni mor wahanol i ganfyddiad y gymuned leol.
7. Sefydlu Cronfa Gymunedol.

Roedd hi heb dderbyn ymateb. Penderfynwyd yn unfrydol gan y Cyngorwyr y dylai'r Clerc gysylltu eto.

Y Cae Chwarae:

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Tom Jones ac Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae.

Roedd y toiledau wedi cyrraedd ar 02 Mehefin 2016. Byddai'r cwmni llogi yn casglu ar 30 Medi 2016.

Roedd y Cyngor Sir wedi gwneud archwiliad o'r adnoddau ar y cae chwarae. Byddai copi o'r adroddiad yn cael ei anfon i'r Clerc cyn cyfarfod Mis Tachwedd.

Byddai arwydd "Araf, Plant yn Chwarae/Slow, Children Playing" yn cael ei osod yn y man.

Cafwyd gwybodaeth bod y coed o gwmpas y cae chwarae wedi estyn dros ran o'r cae a bod y ffens mewn cyflwr gwael. Penderfynwyd dod â rhagor o wybodaeth i'r cyfarfod nesaf.

Gwefan Llanllwni: Byddai adroddiad o gyfarfod mis Medi ar y wefan, ac yn Clonc a Clecs Bro Cader yn fuan.

Mantolen 2015-2016: Roedd y cyfrifon wedi'u harchwilio.

Y Golau ger yr Ysgol: Roedd y gwaith wedi ei gwblhau.

Parcio Gwrthgymdeithasol: Roedd y Clerc wedi derbyn cadarnhad y byddai Dafydd Llywelyn, Comisynydd yr Heddlu, yn mynychu cyfarfod Mis Tachwedd.

Sbwriel ar hyd y pentref: Roedd llawer o sbwriel ger Erw-lon; Maes-pwll-Aberceiliog; Waun-fawr-Bryn.

Diwrnod o hwyl: Roedd y Clerc wedi danfon gair o ddiolch at deulu Tir-lan.

Ysgol Sul yr Eglwys Llanllwni: Roedd y Clerc wedi cysylltu i holi a oedd yr Ysgol Sul am gyfraniad at gostau gan mai dyma'r unig Ysgol Sul yn y pentref bellach. Teimlai'r Cyngorwyr bod angen cyfrannu tuag at rywbeth penodol.

Bin Sbwriel Cware Mownt: Roedd y Clerc wedi cysylltu â'r Cyngor Sir a chafwyd cadarnhad y byddai bin yn cael ei osod yno yn y dyfodol agos.

SLCC

Penderfynwyd yn unfrydol gan y Cyngorwyr y byddai'r Clerc yn dod i'r cyfarfod nesaf.

Llwybr Cyhoeddus: Derbyniwyd gwybodaeth y byddai'r llwybr cyhoeddus ger Pen-rhiw yn cael ei symud.

Pwyllgor Henoed Llanllwni: Derbyniwyd gwybodaeth am gyfarfod nos Lun 26 Medi 2016 yn ysgol Llanllwni am 7.30yh i drafod ailsefydlu'r Pwyllgor.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 14 Tachwedd 2016 am 8.00yh.

Yn Toriad Taclus Llanybydder:
Dydd Llun 9.00-7.00 a Dydd Mawrth 9.00-5.30
Teithiol:
Dydd Iau 9.00-2.30 a Dydd Gwener 9.00-5.00

Caryl Herrick
carylcwm@hotmail.co.uk
Salon: **01570 481425**
Symudol: **07971629001**

Graham Jones

Gwasanethau Cyfrifiaduron

- ★ Datrys Problemau a Trwsio
- ★ Ymweliadau Cartref o £45
- ★ Cyfrifiaduron, Gliniaduron a Pherifferolion Ar Werth
- ★ Gwasanaeth Adfer Data
- ★ Gwasanaeth Dylunio Gwefan

Ffôn **01545 560776**
neu **07715 740777**
www.tynici.com

graham@tynici.com

Dawns Emporium

Rhoddion Cymraeg a Phersonol

07818 020907
Drefach, SA40 9SX

dawnsemporium
www.dawnswelshgifts.co.uk

Ruth Thomas

a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambled
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant

Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan, beic modur

Yswiriant tŷ/cynnwys

Tai Bwyta / Siopau

Cyfrifoldeb

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cynngor a chefnogaeth yn rhad

Fferm a busnes

Anifeiliaid

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: **01570 422401**
E-bost: carol@ejic.co.uk

Mae Eryl Jones Ymgynghorydd Yswiriant yn awdurdodedig ac yn rheoleddig gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

Llanybydder



Marc a Wendy Jenkins, Esgerwen Fach, Mydroilyn yn cyflwyno sicc am £700 yr un i Glan Davies o Calon Cymru ac i swyddogion Cangen Llanybydder o Diabetes UK Cymru, sef Bet Davies, Betty Jones a Jack Jenkins.



Mae Pwyllgor Pentref Llanybydder wedi rhoi diffibriliwr i'r Pentref. Mae wedi ei leoli yn ei gasyn ar y wal tu allan i Siop y Bont. Dyma'r pwyllgor yn cyflwyno'r diffibriliwr i'r Cynghorydd Ieuan Davies.

Digwyddiadau

Mae Pwyllgor y Pentref yn cynnal noson Tân Gwyllt yn y Llew Du ar y 5ed o Dachwedd am 6.00 o'r gloch a'r Cylch Meithrin yn cynnal noson Bingo yn y clwb rygbi ar yr 22ain o fis Tachwedd am 8.00 o'r gloch.

Clwb Hoci Llanybydder

Dechreuodd y gynghrair i dîm hŷn menywod Clwb Hoci Llanybydder eleni ar nos Iau y 6ed o Hydref gyda gêm yn erbyn Clwb Hoci Caron ar yr astro yn Llambled. Roedd y tywydd yn ffafriol ac yn addas i'r gêm agored a chwaraewyd gan Lanybydder. Roedd yn ddechrau arbennig i'r tymor gan ennill 0 - 11 a dangos cryfderau fel tîm. Y sgorwyr oedd Sioned Williams (Ffenestri), Hedydd Wilson, Robyn Giles, Naiomi Davies, Claire Richards a chwech gôl i Rhian Thomas. Chwaraewraig y gêm oedd Caryl Rees a Naiomi Davies oedd y chwaraewraig dan 18 oed.



Hunlun y tîm ar ôl ennill 1-4 yn erbyn Clwb Hoci Emlyn.

Alltyblaca

Diolch

Dymuna Lilian Rees, Brynderw ddiolch am y cardiau, anrhegion a'r holl gyfarchion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Clwb Clonc

Tachwedd 2016

£25 rhif 107 :

D. John Davies,
Maes, Llanllwni.

£20 rhif 165 :

Mrs Jean Evans,
Llwyn-y-gog, Gorsgoch.

£15 rhif 524 :

Iestyn Jac Wilson,
Trysor, Caerfyrddin.

£10 rhif 446 :

Mrs Eirlys Thomas,
Gwernyfed, 50 Heol-y-Gaer,
Llanybydder.

£10 rhif 450 :

Merfyn Thomas,
10 Nantoer, Rhydybont,
Llanybydder.

£10 rhif 532 :

Gareth, Cerys a Betsan Lloyd,
Hafan Cletwr, Talgarreg.

£5 rhif 505 :

J.T.B. Williams,
Brynamlwg, Llanwnnen.



Ennill Cadair

Llongyfarchiadau i Lowri, wyres Alan ac Ann Bellamy, Hendy ar ennill cadair eisteddfod ysgol Llanarth yn ddiweddar am ysgrifennu cerdd ar y testun "Argyfwng 999." Da iawn ti.

Ar Wellhad

Gobeithio bod Emlyn Davies, Delfryn, 43 Bro Einon yn well ar ôl debyn triniaeth ar ei lygad yn ddiweddar.

Gallwch hysbysebu ym Mhapur Bro Clonc am gyn lleied â £12. Rydym yn dechrau casglu hysbysebion rhifyn Rhagfyr.

FFAIR NADOLIG yn Neuadd Pontsian

Dydd Sul,
20fed o Dachwedd
rhwng 10:30yb a 3yh.

Dros 30 o stondinau gyda chreffftau amrywiol a chynnyrch lleol.

Gwobrau raffl gwyh wedi'u rhoi gan ein stondinwyr.
Elw'r dydd yn mynd tuag at elusen Alzheimers.
Mynediad - £3 oedolion a £1 plant cynradd.
Y pris yn cynnwys diod dwym a mins pei.
Dewch yn llw.



LYN JONES

"At eich gwasanaeth"



- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
- Symud celfi
- Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
- Wedi yswirio'n llawn



01570 481029
Lakefield, Llanybydder, SA40 9RL



C.Ff.I. Ceredigion.

C.Ff.I. Llangwryfon yn ennill Diwrnod Maes C.Ff.I. Ceredigion

Cynhaliwyd Diwrnod Maes C.Ff.I. Ceredigion ar fferm IBERS, Aberystwyth ddydd Sadwrn, 8fed o Hydref. Cafwyd cystadlu brwd drwy gydol y dydd, wrth i 17 o glybiau'r Sir gymryd rhan gyda dros 210 o aelodau yn cystadlu mewn amryw o gystadlaethau. Braf oedd gweld nifer o aelodau newydd yn ymgeisio ar y gystadlaethau stoc. Bu cynnydd yn nifer y clybiau a gymerodd ran yn y cystadlaethau, sef Sialens ATV, Arddangosfa Ciwb, Trimio Oen, Ffensio Iau a Hŷn, Llwybr Natur Iau, Addurno Coeden Nadolig a Gyrru Tractor gan sicrhau digon o amrywiaeth yn ystod y dydd.

Dyma restr y canlyniadau:- **Stocmon y Flwyddyn – Cwpan Her Cefnmaes:** 1af – Eiry Williams, Llangwryfon; 2il – Elizabeth Harries, Pontsian; 3ydd – Sian Downes; 4ydd – Sion Ellis, Llangwryfon. **Tîm dan 26 – Cwpan Her teulu Moelifor:** cydradd 1af – Llangwryfon a Pontsian; 3ydd – Penparc. **Beirniad Stoc y Flwyddyn 18 oed ac iau – Cwpan Trevor Davies a'r teulu:** 1af – Ffion Jenkins, Llanwenog; 2il – Manon Turner, Llangeitho; 3ydd – Laura Evans, Llangwryfon; 4ydd – Gethin Morgans, Llanwenog. **Tîm dan 18 – Cwpan Her Pantyrhendy:** 1af – Llanwenog; 2il – Llangeitho; 3ydd – Llangwryfon. **Beirniad Stoc y Flwyddyn 14 oed ac iau:** – **Cwpan Her Rob a Sheila Rattray:** 1af – Beca Jenkins, Pontsian; 2il – Elin Rattray, Trisant; 3ydd – Owain Jones, Llanwenog; 4ydd – Ifan Davies, Llanddeiniol. **Tîm 14 oed ac iau – Cwpan Her Fron:** 1af – Llanwenog; 2il – Llanddeiniol; 3ydd Felinfach. **Arddangosfa Ciwb:** 1af – Trisant; 2il – Llangeitho; 3ydd – Bryngwyn. **Sialens ATV – Cwpan Mid Ceredigion ATB Group:** 1af – Rhodri a Dyfan, Troedyrur; 2il – Huw a Sion, Llangwryfon; 3ydd – Rhodri a Cennydd, Pontsian. **Gyrru Tractor a Loader – Tarian Goffa John Bowman:** 1af – Dyfan Ellis Jones, Llangwryfon; 2il – Carwyn Jones, Mydroilyn; 3ydd – Ifan Evans, Llanwenog. **Trimio Oen: Cwpan Her Meinir a Sioned Green, Nantgwyn:** 1af – Sian Downes, Llangeitho; 2il – Trystan Davies, Talybont; 3ydd – Morys Ioan, Caerwedros. **Addurno Coeden Nadolig:** 1af – Alwen ac Elin, Llangwryfon; 2il – Lisa a Lowri, Bro'r Dderi; 3ydd – Leisia a Steffan, Caerwedros. **Llwybr Natur Iau – Cwpan Her IBERS:** 1af – Rhiannon a Megan, Tregaron; 2il – Glesni a Harri, Talybont; 3ydd – Leisia a Steffan, Caerwedros. **Ffensio Iau:** 1af – Llangwryfon; 2il – Troedyrur; 3ydd – Llangeitho. **Ffensio Hŷn - Cwpan Cilerwisg, Felinfach:** 1af – Llangwryfon; 2il – Trisant; 3ydd – Llangeitho.

Erbyn diwedd y cystadlu, ac yn ennill cwpan her Pantlleinau, roedd clwb Llangwryfon ac yn derbyn tlws coffa Gethin Jones, Deinol am ddod yn ail-fuddugol oedd Llangeitho.



Dymuna C.Ff.I. Ceredigion ddiolch i bawb a fu ynghlwm â Diwrnod Maes y Sir, drwy feirniadu, benthg offer a stoc, cyfrif y marciau a stiwardio gydol y dydd. Diolch yn arbennig i Fferm Ibers am ganiatáu i ni gynnal y Diwrnod Maes yno a diolch i gwmni 'Innovis', Capel Dewi am noddi'r digwyddiad. Gwerthfawrogwn gymorth pawb yn fawr iawn. Bydd enillwyr y cystadlaethau yma yn cynrychioli Ceredigion yn awr yn y Ffair Aeaf ar 28-29 o Dachwedd ac yn Niwrnod Maes Cymru a fydd yn cymryd lle ar Ebrill 29ain yn Ynys Môn.

Hoffwn hefyd estyn ein llongyfarchiadau gwresog i bedwar aelod o'r mudiad sydd wedi cael eu hethol yn gadeiryddion is-bwyllgorau Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru yn y Cyfarfod Blynnyddol. Cafodd Eysyllt Ellis Jones, Llangwryfon ei hethol yn Gadeiryddes yr Is-bwyllgor Rhyngwladol, gyda Angela Evans yn Is-Gadeiryddes iddi. Morys Ioan, Caerwedros yn Gadeirydd yr Is-Bwyllgor Materion Gwledig a Nia Medi yn cael ei hethol yn Gadeiryddes yr Is-bwyllgor Hyfforddiant. Llongyfarchiadau i'r pedwar a phob lwc iddynt yn eu swyddi am y flwyddyn sydd i ddod.

Enillwyr Clwb 200 – Hydref 2016

1. Rhian Davies, Brenan, New Cross, Aberystwyth. 2. CFfI Caerwedros. 3. Iwan Jenkins, Glynmeherin, Gorsgoch.



Llongyfarchiadau mawr i'r mudiad yng Ngheredigion hefyd ar ennill yr aradr sef y ffederasiwn â'r nifer uchaf o bwyntiau cystadlu drwy'r flwyddyn. Anrhydedd yn wir.

Y Digwyddiadau Nesaf

Hyffordiant Barnu Carcas – Nos Iau 10fed o Dachwedd yn Dunbia am 6:30y.h.

Eisteddfod C.Ff.I. Cymru – Dydd Sadwrn 19eg o Dachwedd yn Neuadd y Brangwyn, Abertawe.


Chwaraeon Dan Do – 25ain o Dachwedd yn Llanddewi Brefi am 7.00 y.h. Ffair Aeaf - 28ain a'r 29ain o Dachwedd yn Llanellwedd.

Siarad Cyhoeddus Saesneg – 4ydd o Ragfyr yng Nghanolfan Addysg Felinfach.

Dawns y Frenhines a'r Ffermwr Ifanc – 28ain o Ragfyr yn Pier Pressure, Aberystwyth.



Sioned Davies, CFFI Llanwenog
– 3ydd Unawd 13 neu Iau.



Beca Jenkins, CFFI Pontsian
– cydradd 3ydd Llefaru 16 neu Iau.



Carys Evans, CFFI Llanwenog
– 3ydd Unawd 16 neu Iau.



Twm Ebbsworth, CFFI Llanwenog
– cydradd 3ydd Monolog neu
Ymgom ysgafn 26 neu Iau.



Hanna Davies, CFFI Llanwenog
– 2il Llefaru 16 neu Iau a 3ydd Canu
Emyn Nofis 26 neu Iau.

Bydd rhagor o
luniau grŵp o
Eisteddfod
C.Ff.I. Ceredigion
yn rhifyn nesaf
CLONC.

Eisteddfod



Luned Mair, CFFI Llanwenog
- cydradd 3ydd Llefaru 26 neu Iau.



Elin Haf Jones, CFFI Llanwenog
- 2il Llefaru 26 neu Iau.

Eisteddfod Ddwl

Trefnwyd yr eisteddfod eleni gan swyddogion Papur Bro Llais Aeron ar y 14eg o Hydref. Cynhaliwyd yr eisteddfod Yn Neuadd Felinfach. John a Menna Jones, Ffair Rhos oedd y beirniaid gyda Keith Evans, Silian yn arwain.

Cafwyd noson yn llawn hwyl gyda phapur Yr Angor yn ennill Tarian Y Lolfa am y nifer fwyaf o farciau.

Dyma ganlyniadau Papur Bro Clonc:

- 1af am ddweud jôc - Elen Morgan, Drefach
- 1af am ysgrifennu dyddiadur - Morgan Lewis, Cwmann
- 1af yng nghystadlaeth Ysgolion Cynradd - Megan Davies, 2il Luned Jones, 3ydd Elan Jenkins ac Eleri Sisto Jones o Ysgol Cwrtnewydd
- Cydradd 3ydd am greu cerdyn Brysiwch Wella - Elma Phillips, Cellan a Dylan Lewis, Cwmann
- 2il yng nghystadlaeth Band y Garej - Band Clonc.



Dyma'r marciau ar ddiwedd y noson: 4ydd - Y Ddolen gyda 1 marc; 3ydd - Clonc gyda 26 marc; 2il - Llais Aeron gyda 30 marc a 1af - Yr Angor gyda 40 marc.

Sul y Cofio

Cynhelir Cwrdd y Cofio ger cofgolofn y pentref am 10.45yb ddydd Sul y 13eg Tachwedd.

C.Ff.I. Cwmann

Ar y 9fed o Fedi cynhaliwyd noswaith gyntaf y clwb am y flwyddyn newydd i groesawu aelodau newydd gyda gemau a barbeciw ar gae'r pentref. Er gwaethaf y tywydd anffafriol, braf oedd gweld nifer o wynebau newydd a rhai mwy cyfarwydd yno. Diolch i'r bechgyn am drefnu'r gemau ac i Delyth am y lluniaeth a gafwyd ar diwedd y noson.

Ar y 23ain o'r mis cafwyd noson o ddysgu barnu stoc ar fferm Felindre drwy garedigrwydd Tomos, Elen a'r teulu. Roedd yn gyfle da i aelodau llai cyfarwydd ag anifeiliaid fferm wella eu dealltwriaeth a gofyn cwestiynau i'r aelodau fwy profiadol am sut i feirniadu cylch o ddefaid magu a wryn tew. Gobeithio bydd hyn yn arwain at gael rhagor o aelodau'n troi eu llaw at farnu stoc yn y Rali a'r diwrnod gwaith maes y flwyddyn nesaf.

Ar y 13eg o Hydref cafwyd Cwrdd Diolchgarwch blynyddol y clwb ar y cyd â Chapel Caersalem, Parc-y-Rhos. Cafodd y cwrdd ei arwain gan y Parchedig Jill Tomos a'r bregeth ei thraddodi gan y Parch Cen Llwyd. Braf oedd gweld nifer o aelodau'r clwb yn cymryd rhan wrth wneud darlenniadau a chyhoeddi'r emynau. Hoffai'r clwb ddiolch i aelodau'r capel am rannu'r noswaith unwaith eto. Hefyd diolch iddynt am rannu'r casgliad i'w roi tuag at ein helusen eleni, sef Stroke Association Wales.

Y nosweth ganlynol gwelwyd yr aelodau yn cystadlu yn nosweth gyntaf Eisteddfod y sir yn Neuadd San Pedr, Caerfyrddin. Cafwyd tipyn o hwyl wrth i'r clwb gymryd rhan yn y sgets, ac Elan a Beca'n cymryd rhan yn y gystadlaeth canu emyn. Yr wythnos ganlynol, nos Wener yr 21ain a dydd Sadwrn y 22ain, gwelwyd yr aelodau yn cael tipyn o lwyddiant wrth gystadlu. Cipiodd Elan a Beca yr ail wobwr yn y ddeuawd o dan 26ain, a daeth Elan yn drydydd yn y llefaru 16 neu iau. Bu Sian Elin yn llwyddiannus hefyd wrth ddod yn drydydd yn y llefaru 21 neu iau. Cafodd y parti llefaru a'r grŵp dawnio disgo lwyddiant pellach, gyda'r ddau yn dod yn drydydd. Buodd Elan a Beca yn brysur eto yn cystadlu yn yr unawd 16 ac iau, gyda Elan hefyd yn cystadlu yn yr unawd alaw werin a'r unawd offerynnol. Cafwyd cystadlu brwd hefyd yn y parti canu a meimio. Rhaid llongyfarch yr holl aelodau a gymerodd ran, ac hoffai'r aelodau ddiolch o galon i bawb a fu yn helpu ac hyfforddi ar gyfer yr holl gystadlaethau. Heb eu caredigrwydd a'u hamser ni fyddai yn bosib

Cwmann

i'r aelodau fwynhau'r profiad o gystadlu.

Edrychwn ymlaen at fis Tachwedd prysur, gyda chwis y pwyllgorau lleol i ddechrau'r mis ar y 4ydd, a Bingo agored ar y 25ain.

Swydd Newydd

Llongyfarchiadau i Carys Lewis, Tycerrig ar gael ei phenodi yn Ddirprwy Bennaeth Ysgol Gynradd T Llew Jones a phob dymuniad da wrth ddechrau yn y swydd newydd ym mis Ionawr.

Diolchiadau

Dymuna Danny ac Ann Davies, Brynteify ddiolch i bawb a ddanfonodd gardiau, blodau, anrhegion ac am y galwadau ffôn a dderbyniasant ar achlysur eu Priodas Aur yn ddiweddar.

Dymuna Ann a'r teulu, Arfryn ddiolch i bawb a ddanfonodd gardiau a blodau ac am y galwadau ffôn ar farwolaeth ei phriod a oedd yn dad, tad-cu a hen dad-cu, sef Mr Ieuan Jones yn wythdeg saith oed.

Dymuna Tom a Veronica, Caeralaw ddiolch i bawb am y cardiau, anrhegion a phob dymuniad da a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu Priodas Aur yn ddiweddar.

Clwb 125

Neuadd Sant Iago – mis Hydref
1. Christina a Shaun Davies, Pleasant View, Llambled, 8. 2. Mrs Strange, Vicarage, Cwmann, 69. 3. Nerys Douch, Trefin, Cwmann, 27. 4. Eirian Jones, Hollies, Llambled, 61. 5. Lena Williams, Heol Hathren, Cwmann, 98. 6. Von Abel, Neuadd

Sefydliad y Merched



Ar y 3ydd o Hydref bu'r aelodau yn cynnal eu cinio blynyddol yn y Goedwig, Llambled. Croesawyd pawb yno gan y llywydd, Elma Phillips gyda'i chyd lywydd, Gwen Jones yn traddodi gras.

Mwynhawyd cinio blasus wedi ei baratoi gan Gareth Richards, ac i orffen cafwyd cacennau bach wedi eu gwneud yn arbennig gan Gareth gydag arwydd y sefydliad arnynt, gan eu bod hefyd yn dathlu pen-blwydd Ffederasiwn Sir Gâr yn 90 mlwydd oed eleni.

Ein gwraig wadd am y noson oedd Yvonne Evans, Aberaeron (Yvonne y tywydd S4C). Bu Yvonne yn sôn am ei magwraeth hapus yn Aberaeron, ac am ei gwaith yn S4C. Mae nawr yn byw yng Nghaerdydd, a gweithio yn Llanelli. Diolchwyd iddi am araith ddiddorol chatrefol gan yr Is-lywydd, Mary Davies. Diolchodd hefyd i Gareth a'i staff, ac i Gwyneth, ein hysgrifennydd am drefnu'r noson. Bu diolch hefyd i Elma a Gwyneth am drefnu cinio ac adloniant yng Nghanolfan Haliwell, Caerfyrddin yn ddiweddar, eto i dathlu pen-blwydd y Ffederasiwn.

Aed ymlaen i drafod ychydig fusnes, a dymunwyd yn dda i Veronica a Tom ar ddathlu eu priodas aur, a llongyfarchwyd Helena a Bryn ar enedigaelth wŷr bach. Enillwyd y raffl gan Elma, Helena, Joyce a Mary.

Deg, Cwmann, 109. 7. Glenys Harrison, Ty Hir, Heol Llanfair, 59.

Eisteddfod Gadeiriol Felinfach



Enillodd Sara Elan Jones, Araul y wobwr gyntaf yn Llefaru 12-16 oed yn Eisteddfod Felinfach yn ddiweddar.

Swydd Newydd



Llongyfarchiadau i Lois Williams, Crynfryn ar gael ei phenodi yn Swyddog Technegol Cymdeithas Eisteddfodau Cymru. Pob dymuniad da i ti yn dy swydd newydd.



Hanner Marathon Caerdydd



Roedd 15 o redwyr Sarn Helen ymysg tua dwy fil ar bymtheg o bobl ar linell gychwynnol yr hanner marathon yn ein prifddinas ddechrau mis Hydref. Dyma'r tro cyntaf i Sion Price redeg y ras hon a fe oedd y cyntaf o'r clwb i groesi'r llinell derfyn mewn amser anhygoel o 1.17.29. Llwyddodd Dawn Kenwright i ennill categori'r menywod dros 60 mewn 1.44.57. Roedd nifer o'n haelodau yn rhedeg y ras am y tro cyntaf ac er nad oedd pawb yn hapus gyda'u perfformiadau, gwelwyd amseroedd da iawn gyda Simon Hall yn gorffen mewn 1.25.09, Llewelyn Lloyd 1.25.47, Donna Teed-Davies 1.58.19, Bronwyn Coltman 2.10.03 ac Emma Davies 2.53.02. Dyma'r y pumed tro i Nigel Davies ac fe lwyddodd i gael ei amser gorau ar y cwrs o 1.26.42, 1 funud 8 eiliad yn gynt na'i amser blaenorol. Fel rhan o'i baratoadau ar gyfer marathon Eryri, fe roedd Mitchell Readwin ras dda gan orffen mewn 1.48.14. Roedd Eleri Rivers yn rhedeg y ras hon am y seithfed tro ac roedd ei hamser o 1.49.40, er yn amser da, yn profi nad oedd hi'n teimlo ar ei gorau am ei bod hi 10 munud yn arafach na'i hamser gorau, ond stori wahanol oedd hi i w'r Eleri, gan fod Mark Rivers yn rhedeg ei hanner marathon cyntaf gan orffen mewn amser arbennig o 1.38. Rhedodd George Eadon 1.50.58 sydd tipyn arafach na'i amser llynedd o 1.34, ac fe wnaeth Terry Wyn Jones redeg gyda'i gydweithwyr o'r Frigad Dàn mewn 1.57.56 tra bod Aneurin James wedi rhedeg gyda'i gyfaill Mair Evans o Felinfach mewn 2.07.47. Gorffennodd Nicola Higgs mewn 2.21.21 ac Emma Gray mewn 2.41.16, a dyma'r tro olaf i Tim Jones redeg mewn vest Sarn Helen am ei fod wedi ymuno â chlwb yn Birmingham lle mae nawr yn byw a chafodd ras dda mewn 1.19.02.

Ras Hwyl Llanwenog

Ar Hydref 22ain, gwelwyd y ras hon yn cymryd lle am y tro olaf oherwydd erbyn yr amser hyn y flwyddyn nesaf bydd yr ysgol wedi cau gan symud i'w safle newydd yn Nrefach. Cafwyd cefnogaeth dda o blant ac oedolion ac roedd yr haul yn gwenu ar y digwyddiad. Roedd 36 yn rhedeg ras yr oedolion o 6.5 milltir a oedd yn mynd trwy bentrefi Llanwenog, Drefach, Rhuddlan a Brynteg ac roedd y cwrs yn eithaf heriol gan gynnwys nifer o ddringfeydd. Enillydd y ras oedd y rhedwr lleol Nigel Davies mewn 43.10, a fe gipiodd categori'r dynion dros 40. Gyda'r ail yn yr un categori yn mynd i Glyn Price, Sarn Helen 46.51 a'r trydydd i Mark Rivers 47.16. Sarn Helen oedd pencampwyr categori'r dynion agored gyda Tomos Morgan yn fuddugol ac yn ail yn y ras mewn amser arbennig o 45.43, gyda Simon Hall yn ail mewn 46.50 a George Eadon yn 3ydd mewn 49.16. Huw Price, Sarn Helen oedd enillydd y dynion dros 50 mewn 49.12 gyda Chris Sexton, Pembrokeshire Harriers yn 2il mewn 50.54 a Paul Rose, Aberystwyth AC yn 3ydd mewn 51.33. Y ferch gyntaf i ennill y ras oedd Tash Sexton, Pembrokeshire Harriers o categori'r merched dros 35 mewn 46.47, a'r ail yn yr un categori ac yn y ras oedd un o'r trefnwyr, Eleri Rivers, Sarn Helen mewn 49.37 a'r trydydd yn yr un categori oedd Sian Roberts-Jones, Sarn Helen mewn 51.45. Enillydd categori y merched dros 45 ac yn 3ydd yn y ras oedd Dawn Kenwright, Sarn Helen mewn 51.20 a chyd aelod o'r clwb Delyth Crimes yn 2il mewn 56.36. Kate McDermott, Sarn Helen oedd enillydd y merched agored mewn 54.56, Pamela Carter yn 2il mewn 55.03 a Elin Neal, Sarn Helen yn 3ydd mewn 56.03. Enillodd Dee Jolly, Sarn Helen y ras 2 milltir mewn 16.45 a Janet Davies, Cwmsychpant yn 2il mewn 27.42.

Llwyddiant Cenedlaethol

Llongyfarchiadau mawr i ddau o'n haelodau selocaf Richard Marks a Dawn Kenwright sydd wedi llwyddo i gael eu dewis eleni eto ar gyfer tîm Cymru mewn cystadleuaeth drawsgwlad yn Glasgow ym mis Tachwedd. Cânt eu dewis o ganlyniad i'w perfformiadau mewn rasys penodol yn ystod y flwyddyn, felly da iawn chi.

Canlyniadau eraill

Hydref 9fed, bu Calvin Williams a Dawn Kenwright yn cymryd rhan

mewn ras 8 milltir y "Two Rivers Run" ar hyd llwybrau heriol yn ardal Presteigne gyda Calvin yn gorffen yn 3ydd dynion 50 mewn 1.08.41 a Dawn yn ennill categori menywod dros 60 mewn 1.24.02.



Ar Hydref 16eg, cynhaliwyd ras flynyddol y "Twin Peaks" yn Aberystwyth, ac mae hon yn ras boblogaidd ymysg aelodau Sarn Helen. Llwyddodd Ken Caulkett i ennill y ras eleni mewn 47.49, Llewelyn Lloyd yn 5ed ac yn 2il dynion agored mewn 49.44, Carwyn Davies oedd 3ydd rhedwr Sarn Helen i groesi'r llinell derfyn mewn 53.29, Michael Davies 54.44, Calvin Williams yn cipio'r safle cyntaf i ddynion dros 50 mewn 56.22, Thomas Willoughby 57.54, Tony Hall yn ennill i ddynion dros 60 mewn 58.22, Dee Jolly yn gorffen yn 2il ferch, 11 eiliad tu ôl i'r enillydd mewn 58.46 ond yn llwyddo i ennill categori y merched agored, a Mick Taylor yn gorffen mewn 1.02.22.

Fe deithiodd teulu'r Caulkett's i Portsmouth ar Hydref yr 22ain ar gyfer y Great South Run gyda Ken a'i wraig Jenny yn rhedeg y ras 10 milltir. Ken yn gorffen mewn 59 munud a Jenny yn cael ei hamser gorau o 1 awr 25 munud.

Ar Hydref 23ain – Cynhaliwyd Hanner marathon Stroud ac mae hon yn ras y mae Carwyn Davies wedi cymryd rhan ynddi ers sawl blwyddyn bellach ac eleni fe orffennodd mewn lawr 25munud a'i osododd yn safle 53 allan o tua 1400 o redwyr, ac efallai pe na byddai yna wynt cryf yn wynebu'r rhedwyr am y 4 milltir olaf y byddai wedi llwyddo i orffen mewn amser cyflymach.



Hefyd yr un diwrnod, fe deithiodd 6 o'n haelodau i Lanwrtyd i gymryd rhan yn hanner marathon Ron Skilton. Roedd hi'n frwydr rhwng y brodyr Jones gydag Andres yn cipio'r safle cyntaf a chategori'r dynion agored a hynny mewn 1.26.28, 1 eiliad cyn ei frawd hyn Felipe a orffennodd yn yr ail safle mewn 1.26.29, ond yn gyntaf i ddynion dros 40. Sion Price oedd yr ail i ddynion agored ac yn 4ydd yn y ras mewn 1.28.13, gyda Daniel Hooper yn 9fed yn y ras ac yn 3ydd dynion 40 mewn 1.32.53. Cafodd Dee Jolly ras arbennig o dda gydag ond 16 eiliad yn gwahaniaethu'r ferch gyntaf a'r drydedd. Dee oedd yr ail ferch i orffen ond y cyntaf yng nghategori'r merched agored mewn 1.51.38. Aelod arall o'r clwb i redeg oedd Mick Taylor a orffennodd mewn 1.58.50.

Canlyniadau'r plant

Ras 1 filltir Consti, Aberystwyth, Hydref 16eg – Llongyfarchiadau i'r canlynol am eu hamserau da – Jack Caulkett 7.24, Daniel Willoughby 7.28 (2il fachgen 13-15oed), Sean Wood 9.55, Isabella Caulkett 10.40 (2il ferch 13-15 oed), Violet Caulkett 10.43.

Ras Llanwenog, Hydref 22ain – Cynhaliwyd nifer o rasys i'r plant a'r bobl ifanc gyda phob un ohonynt yn derbyn medal am basio'r llinell derfyn. Roedd blynyddoedd 3,4,5 a 6 yn rhedeg ras filltir gyda Casi Gregson, Sarn

Sarn Helen



Helen yn ennill i ferched bl 3&4 mewn 6.34, Elin Lloyd yn 2il mewn 7.47 a Lucy Moyes, Sarn Helen yn 3ydd mewn 7.50 gyda Sara Davies, Sarn Helen hefyd yn rhedeg ras dda mewn 8.18. Daniel Warrender, AAC oedd yr enillydd i fechgyn 3&4 mewn 6.17 gyda Cai Allan, Sarn Helen yn dynn ar ei sodlau mewn 6.20 a Sion Jones, Llanwnen yn 3ydd mewn 7.04. Hefyd yn cynrychioli Sarn Helen yn yr un ras oedd Jac Rees 7.30 a Charlie Wood 8.08. I flynyddoedd 5&6, Gwenllian Llwyd oedd enillydd y merched mewn 6.21, Nia Winfred Lewis, Aberystwyth AC yn 2il mewn 7.10 a Luned Jones, Cwrtnewydd yn 3ydd mewn 7.19. Rhys Williams, Sarn Helen oedd y bachgen buddugol mewn 6.03, Guto Price yn 2il mewn 6.22 a Harri Rivers, Sarn Helen yn 3ydd mewn 6.55. Gwnaeth y canlynol o Sarn Helen redeg ras dda, Sean Wood 7.19, Beca Jones 7.27, Grace Lambert 8.02 a Katy Moyes 8.49. Roedd plant blynyddoedd 7 i 11 yn rhedeg ras 2 filltir gydag Alaw Jones, Sarn Helen yn ennill i ferched bl 7&8 mewn 19.08, a Catrin Price a Sara Price yn gydradd 2il mewn 20.48.

Jamie Jones, Sarn Helen enillodd ras bechgyn bl 7&8 mewn 17.50, gyda Meirion Lloyd, Sarn Helen yn 2il mewn 18.46 a Luke Thomas yn 3ydd mewn 19.18. Rhedodd Idris Lloyd, Sarn Helen [llun ar y dde] ras dda a fe enillodd i fechgyn bl 9,10&11 mewn 17.03. Llongyfarchiadau i Jack Caulkett am gymryd rhan yn ras 2.5K y Junior South Great Run yn Portsmouth gan orffen mewn 9.28.

Llongyfarchiadau i Rhys Williams a Rhodri Gregson a gymerodd ran yng nghystadleuaeth gyntaf trawsgwlad cynghrair Gwent ym Mhen-y-bont yn ddiweddar a'r ddau wedi rhedeg ras dda.



CRWYDRO ER BUDD

yn cyflwyno taith arbennig yn 2017

Rhyfeddodau Brasil, yr Ariannin a'r Wladfa Gymreig 8 – 23 Ebrill 2017

Taith ryfeddol yn ymweld â Rio de Janeiro, Rhaeadrau anferthol Iguazu, Rhewlif syfrdanol Perito Moreno, Bariloche yn yr Andes, Y Wladfa Gymreig gan ymweld ag Esquel, Trefelin. Croesi'r Paith i Drelew, Gaiman, Porth Madryn ble glaniodd y Mimosa, dinas hardd Buenos Aires a llawer mwy. Cyfle i brofi asado gyda trigolion lleol.

Cyfle unwaith mewn oes - peidiwch â'i fethu!

Am fwy o fanylion a ffurflen archebu, Cysylltwch â Dafydd Owen
01286 881911 (dydd) 07795 485 081 (symudol)
ebost : crwydro@crwydro.com

www.crwydro.com

Gohebiaeth

Iechyd Gwledig a Lles Cymunedol yng Nghymru

30 Tachwedd, 2016, 2.00 - 6:00
Hen Neuadd, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant Llanbedr Pont Steffan (PCDDS)

Bydd Clwb Rotari Llanbedr ar y cyd â Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant Llanbedr (PCDDS) yn cyflwyno cyfarfod agored ar 30 Tachwedd 2016. Bwriad y digwyddiad yw codi ymwybyddiaeth o'r hyn sydd wedi ei wneud ac wedi ei gynnig ar gyfer Iechyd Gwledig a Lles Cymunedol yng nghanolbarth Cymru, yn dilyn cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru.

Bydd y digwyddiad yn gymysgedd o arddangosfeydd statig gyda chyflwyniadau ffurfiol gan nifer o siaradwyr yn cynrychioli 'Gofal Cydweithredol Iechyd Canolbarth Cymru', sy'n gofalu am fuddiannau Ceredigion, Powys a Betsi Cadwaladr. Nod 'Gofal Cydweithredol Iechyd Canolbarth Cymru' yw ail-ddiffinio sut y gall polisïau a gwasanaethau wella iechyd a lles y rhai sy'n byw mewn cymunedau gwledig. Un nod penodol yw sefydlu clinig ychwanegol o fewn yr ardal leol i leihau yn sylweddol amseroedd aros i gleifion y Canolbarth.

Un siaradwr allweddol fydd yr Ymgynghorydd Mr Manoj Kulshrestha, Darlennydd cyntaf Cymru mewn Iechyd Gwledig a Lles Cymunedol. Bydd cynrychiolwyr yno hefyd o Gyngor Sir Ceredigion i amlinellu eu cynllun lleol pum mlynedd ac adrodd ar ganlyniadau'r arolwg lles gynhaliwyd yn ddiweddar.

Mae hwn yn ddigwyddiad unigryw rhad ac am ddim yn Llanbedr. Bydd yn cynnig cyfle i weithwyr iechyd proffesiynol, sefydliadau gofal a'r cyhoedd yn gyffredinol gael gwybod mwy am ddatblygiadau lleol i wella a hybu lles iechyd a gofal.

Kevin Sivyver

Llywydd Clwb Rotari Llanbedr e-bost
kss45@sky.com

DIOLCH

i Siop LOMAX am
werthu CLONC dros y
blynyddoedd.
Dymuniadau gorau i chi.

bydd CLONC yn cael ei werthu
yn Llanbedr yn y llefydd hyn:
- Garej Troedrhwi
- J H Williams a'i feibion
- Eryl Jones
- Premier
- Spar a Co-op

Mwnici ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a Mared Jones
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llanbedr

01570 423135
07811917799 /
07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com

Gwasanaethau Coed

Teifi Tree Services



Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfynbris am ddim
Coed tân ar werth

Lyn Davies
01239 851001 / 07796 682448

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion

Glanrwyth, Pumsaint,

Ffôn: 01558 650209 a 650451,

Masnachwyr-coed, ffensiō
a nwyddau adeiladu o
bob math. Tanwydd gan
gynnwys nwy FloGas a
glo caled a meddal o'r
ansawdd gorau

HURIO HEN LESTRI

Ar gyfer unrhyw achlysur



Te prynhawn

Priedas

Parti



Dathliad arbennig

Rhifau cyswllt

01570 480822 neu

07890 340958

nans1@hotmail.co.uk

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llanbydder,
Ceredigion,
SA40 9XG

Darparu gatiâu a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio

Llanbedr Pont Steffan



Daeth arwyddion fod yr haf yn dirwyn i ben gyda chyfarfod cyntaf y gaeaf o Gylch Cinio Llanbedr yn y Clwb Rygbi. Y swyddogion am y flwyddyn yw (o'r chwith) Twynog Davies, Ysgrifennydd Siaradwyr; Richard Marks, Is-lywydd; Aneurin Jones, Llywydd; Tim Jones, Ysgrifennydd a Tom James, Trysorydd. Bydd y cyfarfod nesaf ar y 3ydd o Dachwedd.

Cylch Cinio

Daeth aelodau Cylch Cinio Llanbedr Pont Steffan ynghyd unwaith eto ar y 6ed o Hydref yng Nghlwb Rygbi'r dref dan lywyddiaeth Mr Aneurin Jones. Dyma oedd y cyntaf o bum cyfarfod a gynhelir rhwng Hydref a Mawrth, sef tymor arferol y Cylch. Dros yr Haf fe lwyddodd yr Ysgrifennydd Siaradwyr, Mr Twynog Davies, drefnu rhaglen amrywiol a chyffrous ac yn sicr fe osodwyd y safon yn uchel iawn gan ŵr gwadd y noson, Mr Aled Jones o Gwrtycadno, Prif Weithredwr Cynorthwyol Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru.

Ar ddechrau'r noson, wedi croesawu'r aelodau a'r gŵr gwadd, fe fanteisiodd y Llywydd ar y cyfle i longyfarch aelod o'r Cylch, y bâs-bariton Mr Kees Huysmans, ar ei gamp odidog yn ennill y Rhuban Glas yn Eisteddfod Genedlaethol Y Fenni eleni a rhoddwyd cymeradwyaeth wresog iddo gan yr aelodau. Aeth y Llywydd ymlaen i nodi fod Mr Richard Marks wedi cytuno bod yn Is-lywydd yn ogystal ag yn Ysgrifennydd Y Wasg tra bod gweddill pwyllgor y Cylch am y tymor yn ddigyfnewid, sef Mr Twynog Davies, Mr Tom James (Trysorydd) a Mr Tim Jones (Ysgrifennydd Cyffredinol.)

Wedi'r cinio blasus iawn a ddarparwyd gan arlwywyr y Clwb Rygbi fe gyflwynodd y Llywydd y siaradwr gwadd. O'r dechrau yr oedd hi'n amlwg fod Aled yn areithiwr hwyliog a naturiol. Yn ŵr ifanc o gefndir amaethyddol cryf yn Nyffryn Cothi, fe esboniodd mai "Hyd Yma" fyddai teitl ei sgwrs, cipolwg ar ei fywyd a'r yrfa fer a disglair a ddaeth ag ef i'w swydd bresennol. Wedi derbyn gradd brifysgol dosbarth cyntaf a chymhwyso fel tîrfesurydd siartredig a phrisiwr amaethyddol daeth yn bartner yng nghwmni Rees Richards. Dywedodd mai mawr oedd ei ddyled i fudiad y Ffermwyr Ifanc - bu'n gadeirydd ar ei glwb ffermwyr ifanc lleol ac wedyn yn gadeirydd Pwyllgor Trefnu'r Rali Ewropeaidd. Tu hwnt i'w swydd yn Brif Weithredwr Cynorthwyol, roedd hi'n amlwg fod ei weithgarwch gyda'r Gymdeithas Amaethyddol a'r Sioe Frenhinol yn eang ac amlochrog ac yntau'n Gadeirydd Fforwm Aelodau Ifanc y Gymdeithas ac yn aelod o amryw bwyllgorau a gweithgorau. Anodd credu bod hyn i gyd yn caniatáu llawer o amser sbâr ond clywyd ei fod yn hoff o feicio ac iddo gyflawni taith o dros bum can milltir i godi arian i'r Ambiwylans Awyr.

Cafwyd nifer o hanesion difyr gan Aled am ei deithiau i wledydd tramor, boed yn Awstralia, yr Unol Daleithiau a'u ffeiriau taleithiol enfawr neu'r Ariannin a Papua New Guinea. Roedd rhai o'r teithiau'n deillio o'i lwyddiant yn ennill Ysgoloriaeth Nuffield yn 2015 ar sail ei adroddiad am rôl cymdeithasau a sioeau amaethyddol gyda llygad ar y dyfodol. Aeth ati i olrhain tipyn o hanes cymdeithasau amaethyddol o'u dechreuad gyda Charles Powell yn 1755 hyd at sefydlu Sioe Frenhinol Cymru yn 1954 ac ymlaen at heddiw. Fe grisialodd her y dyfodol drwy sôn am yr angen i'r Sioe barhau i fod yn berthnasol i'r diwydiant amaeth a pharhau hefyd i gynnal diddordeb yr ymwelwyr hynny nad ydynt yn ffermio ond sydd erbyn hyn yn cynrychioli chwe deg y cant o dyrfa'r Sioe.

Llwyddodd Aled i ddifyrru a diddori'r aelodau, yr amaethwyr niferus yn eu plith a'r gweddill fel ei gilydd. Rhoddwyd gair graenus o ddiolch iddo gan Mr Andrew Jones, Felindre Uchaf. Fel brodor o Gellan medrai sôn tipyn am seiliau a chysylltiadau bro'r gŵr gwadd gan gynnwys hanesyn difyr am un o gymeriadau cofiadwy "mynydd Llanbedr," cyn gorffen trwy ddymuno'n dda i Aled ac i "Sioe'r Werin."

Llongyfarchiadau



Enillodd Ffion Jenkins, Tyllwyd, Maestir gystadleuaeth Barnu Stoc o dan 18 oed yn Niwrnod Maes C.F.F.I. Ceredigion ar ddechrau mis Hydref.

Hefyd, ganol y mis dathlodd Ffion ei phen-blwydd yn 18 oed. Gobeithio i ti fwynhau'r dathlu.

Merched y Wawr

Cynhaliwyd ein cyfarfod fel arfer yn Festri Shiloh ar y 10fed o Fis Hydref, gyda Elin Williams yn llywyddu a chanwyd ein hanthem i gyfeiliant Janet. Trefnwyd y cinio blynyddol i'w gynnal yng Ngwesty'r Plu, Aberaeron mis nesaf. Pawb i gwrdd ar y Rookery am 7.00 o'r gloch. Cymerwyd enwau hefyd i'r Cwis Hwyl ar yr 11eg o Dachwedd yng Ngwesty Tyglyn Aeron. Rhoddodd Elin gopi o'r darn llefaru ar gyfer gwasanaeth Cymorth Cristnogol a gwahoddodd unrhyw un a hoffai ymuno.

Bydd y Gwasanaeth yn y Penwythnos Preswyl y flwyddyn nesaf yng ngofal canghennau Felinfach, Aberaeron a ni. Llongyfarchwyd Veronica a'i gŵr Tom ar ddathlu eu Priodas Aur ac hefyd Dilwen a oedd yn dathlu pen-blwydd arbennig. Cytunodd Mary a Veronica ymweld â Hafandeg y mis yma.

Ein gwraig wadd oedd y Doctor Llinos Roberts, meddyg teulu yn Y Tymbl a Cross Hands ac sy'n golofnydd rheolaidd i'r Wawr. Bu'n sôn yn fwyaf arbennig am y cyflwr Osteoporosis drwy ddangos sleidiau, a soniodd bod dros ddwy filiwn o bobl yn y wlad yma yn dioddef o'r cyflwr yma.

Dangosodd hefyd sleidiau o'r clefydau mwyaf cyffredin sy'n poeni pobl. Diolchwyd iddi am noson addysgiadol a hwylus iawn gan Janet.

Paratowyd te a bisgedi gan Veronica, Glesni a Brenda ac enillwyd y wobr fisol gan Gwen.

Bedyddwyr Gogledd Teifi

Daeth cynrychiolaeth dda o aelodau Eglwysi Bedyddwyr Cylch Gogledd Teifi ynghyd i Llain y Castell, Llambod yn ddiweddar. Fe'n croesawyd yn gynnes iawn gan Mair ein Llywydd ac offrymwyd gras gan Ann Morgan. Yn dilyn cinio

tri chwrs ardderchog cyflwynodd Mair ein gŵr gwadd sef Jim Lloyd, neu 'Super Jim' fel yr adnabyddir ef, un o blant eglwys Brynhafof Gorsgoch. Cafwyd ganddo araith wych yn llawn hiwmor o'r dechrau i'r diwedd yn sôn am ei blentnydd hapus yn ardal Gorsgoch, ei gyfnod diddorol yn yr Heddlu a'r deng mlynedd arbennig yn rhan o'r rhaglen boblogaidd 'Twrio' ar S4C. Mae'n meddu ar ddawn eithriadol fel siaradwr ac roedd pawb wrth eu bodd yn gwrandao arno. Diolchodd Brenda iddo am rannu ei atgofion â ni mewn ffordd mor hwyliog sy'n siŵr o aros yn ein cof am amser hir. Diolchodd hefyd i Delyth am ei threfniadau manwl a chydymdeimlwyd â hi ar farwolaeth ei thad yn ddiweddar. Diolchodd yn gynnes i Brian a Mavis am baratoi gwledd o'r radd flaenaf ar ein cyfer.

Cytunai pawb ein bod wedi cael noson y tu hwnt o bleserus yng nghwmni ein gilydd.

Adran Llanbed

Diolch i Rhydian a fu'n cynnal noson o chwaraeon gyda'r plant yn yr adran. Llongyfarchiadau hefyd i'r ddau dîm pêl-droed a fu yn Llangrannog yng nghystadleuaeth y Sir i adrannau. Gwnaeth tîm blwyddyn 4 yn arbennig o dda gan ddangos nifer o sgiliau addawol iawn. Llwyddodd tîm blynyddoedd 5 a 6 gyrraedd y rownd derfynol a cholli o bedair gôl i ddwy ar ôl ymdrech fawr. Da iawn chi a diolch i Mrs A Jones am drefnu ac i bob rhiant a fu'n cludo a chefnogi.

Cerddoriath Llambod

Bute Clarinet Quartet, 2.30yp Dydd Sul 27ain Tachwedd, Yr Hen Neuadd, Y Drindod Dewi Sant Llambod. Tocyn wrth y drws i'r cyngerdd - £11 (consesiynau £9). Myfyrwyr am ddim gyda Cherdyn yr Undeb. Dau blentyn o dan 14 oed - mynediad yn rhad os bydd ganddynt oedolyn sydd yn talu. Ewch i wefan y clwb www.lampetermusic.co.uk

Urdd y Benywod, Brondeifi Noson Dathlu

Noson arbennig oedd cyfarfod cyntaf tymor newydd Urdd y Benywod, Brondeifi ym mis Hydref. Roedd pob aelod ond un wedi bod yn cadw cyfrinach am fisoedd am wir natur y cyfarfod, ac roedd elfennau o'r hen This is Your Life yn yr achlysur.

Dechreuodd ein llywydd, Eryl Jones, gydag adroddiad am hanes yr Urdd yma yn Llanbedr yn cyfeirio at sawl aelod nodedig o'r gorffennol. Roedd manylion y digwyddiadau yn ein hatgoffa ni am ffrindiau ac am hanes y gymuned. Yn yr hen gofnodion gwelwyd sgrifennu ffurfiol iawn. Er engraifft, byddai pob aelod yn cael ei henwi ag enw

Llanbedr Pont Steffan

ei gŵr, felly Mrs. T. G. S. Jones ac yn y blaen. Ond Mrs. D. G. D. Evans oedd yn cael y sylw gyda ni. Mae'r person bonheddig yma yn fwy cyfarwydd i bawb dan yr enw Beti, sef Beti Evans. Mae Beti wedi bod yn gysylltiedig â'r Urdd am fwy na hanner canrif ac wedi dal pob swydd, yn cynnwys swydd y llywydd, yr olaf am gyfnod hir. Roedd y noson yma wedi cael ei threfnu i roi teyrnged ac i ddiolch i Beti am ei gwaith a'i hysbrydoliaeth i'r Urdd.

Bu'r aelodau yn mwynhau noson o gymdeithasu ac adloniant, o chwerthin ac atgofion cynnes. Ac wedi i Beti ddygymod â'r siôc, fe ymunodd hithau hefyd yn y sbri a'r wledd o fwyd a oedd wedi ei baratoi gan aelodau Capel Brondeifi.

Mis nesaf fe fydd yr Urdd yn cyfarfod nos Iau, Tachwedd 10fed am 7.30y.h. i groesawu Rajesh David a fydd yn siarad yn Gymraeg am ei fywyd yn India ac yng Nghymru. Mae Rajesh yn gyfansoddwr ac fe fydd yn canu caneuon traddodiadol a newydd o Gymru ac India yn ystod y noson.

Capel Brondeifi

Ddydd Sadwrn, Hydref 8, cynhaliwyd angladd Ieuan Jones, Arfryn, Cwmann. Roedd yn 87 oed. Bu'n deymgar i Gapel Brondeifi ac arbedodd filoedd o bunnau i'r achos dros y blynyddoedd trwy gyflawni yr holl waith trydanol yn y Capel, y Festri a'r Mans yn ddi-dâl. Preifat oedd yr angladd o dan ofal ei weinidog, y Parch. Alun-Wyn Dafis gyda'r Parch. Goronwy Evans yn talu teyrnged iddo. Cymerwyd at y weddi gan y Canon Eileen Davies gyda Mrs. Margaret Jones wrth yr organ.

Dydd Sul, Hydref 9 daeth tyrfa luosog yngyd ar achlysur croesawu y Parch. Alun-Wyn Dafis yn weinidog. Croesawyd pawb gan Mrs. Meinir Evans, Wernllwyn. Llywyddwyd y gwasanaeth gan y Parch. Wyn Thomas ac yn cymryd rhan bu Mrs. Nans Davies, Ms. Diana Bianchi, Mrs. Margaret Jones, Goronwy Evans a Mrs. Melda Grantham. Darllenwyd llythyr Mrs. Eirene Jones, aelod hynaf y Capel. Ar y sgrin fawr derbyniwyd cyfarchion oddi wrth aelodau Gellionnen, Trebanos; Ysgrifennydd y Gymanfa Gyffredinol yn Llundain a Branwen Dafis o Japan. Chwareuwyd yr organ gan Mrs. Margaret Jones a Mrs. Tanya Morgans, ac yn cymryd rhan yn y band roedd Alun-Wyn, Ffion a'i ffrind a Hywel Roderick. I gloi'r cyfarfod cafwyd gair gan y gweinidog newydd. Yna aethpwyd i'r Festri i gael gwledd o de a sgwrs.

Yn Festri Brondeifi ar nos Fawrth, Hydref 11eg lansiwyd llyfr diweddaraf Goronwy Evans ar hanes y crwydriaid yng Nghymru.

Roedd y Festri dan ei sang. Cymerwyd rhan gan Doreen Lewis, Kees Huysmans gydag Alun- Wyn ar yr accordion. Yn dilyn y cyfan cafwyd te tramp wedi ei baratoi gan Delyth Jones, Pantri. Ymddangosodd eitem ar 'Heno' am y llyfr ar noson y lansiô.

Agorwyd sesiwn Urdd y Benywod ar Hydref 13 gyda noson yng ngofal Margaret Jones ac yn rhan o hynny bu'r gwragedd yn cydnabod gwasanaeth Beti Evans fel Llywydd y gangen am flynyddoedd meithion. Bu'n noson gofiadwy a chyflwynwyd rhodd o flodau iddi a siec a'i hethol yn Llywydd Anrhydeddus.

Gwasanaethwyd ym Mrondeifi ar Sul, Hydref 16 gan Beti Griffiths, Lledrod. Cafwyd ganddi neges arbennig a chofiadwy am stori'r Deg Gwahanglwyf. Y gweinidog oedd ym Mrondeifi ar Sul, Hydref 23 mewn Gwasanaeth Cymundeb.

Y Parch. Alun-Wyn Dafis fydd yno ar Sul, Hydref 30 am 10 o'r gloch a'r Sul dilynol, Tachwedd 6 am 10 o'r gloch y Parch. Goronwy Evans fydd yn gwasanaethu.

Cymdeithas Hanes Llambed

Croesawyd pawb gan y Cadeirydd, Selwyn Walters i gyfarfod mis Hydref, pan ddaeth yr Athro Nigel Nayling, sydd ar staff Coleg y Drindod Dewi Sant, i siarad am y goedwig suddiedig yn ardal y Borth.

Mae olion coed i'w gweld yno yn eithaf cyffredin ar hyd y traeth, ond wedi tywydd stormus a garw, bydd llawer o'r tywod yn cael ei olchi ffwrdd gan ddatgelu llawer mwy o'r olion hynafol hyn. Gwelwyd rhywbeth tebyg ar draeth Niwglwl yn Sir Benfro ychydig flynyddoedd yn ôl. Cyfeiriodd Gerallt Gymro at olygfa debyg wrth iddo deithio o gwmpas Cymru yn 1188 gan ei gymharu ag hanes Y Dilyw, ac wrth gwrs cofiwn am stori Cantre'r Gwaelod a welwyd gyntaf yn Llyfr Du Caerfyrddin ym 1250.

Mae pentref y Borth wedi ei adeiladu ar benrhyn o gerrig yn ymestyn tuag at Ynys Las, yn gwahanu'r môr oddi wrth Gors Fochno. Lle gwelir olion yr hen goed, mae'r arbenigwyr wedi darganfod bod y gwreiddau mewn mawn ac wedi dyddio'r pren yn ôl i 4,500 C.C. Cyfeiriodd yr Athro Nayling at y gwaith o gofnodi pob rhan o'r traeth o Ynys Las yn ôl i'r Borth lle mae olion traed dynol ac anifeiliaid wedi'u gadael yn y clai. Mae'n wybyddys fod yna goed derw, cyll a gwern yn tyfu yno yn ogystal â choed pinwydd, ac wrth gasglu ac astudio'r paill rhwng yr haenau daw rhagor o wybodaeth eto'n amlwg.

Gwelir y ffenomenon yma o gwmpas Prydain gyfan ac yn Ewrop hefyd. Mae lefel y môr erbyn hyn 30 medr yn uwch nag yr oedd ar



Aelwyd yr Urdd

Noddfa

Daeth cynulliad teilwng iawn o aelodau, rhieni a ffrindiau'r achos ynghyd i Noddfa ar 16 Hydref i Wasanaeth Diolchgarwch yr Ysgol Sul. Braf oedd gweld 21 o blant cynradd ac uwchradd yn cymryd rhan ynghyd â 6 o'r Mamau a phawb yn rhoi o'u gorau. Roedd yr olygfa hon yn un i godi calon.

Croesawyd pawb gan Sioned a chyhoeddwyd yr emynau gan Sion, Osian Roberts, Gwenllian, Ffion, Rhys Tom, Sion Ifan ac Efan. Y llefarydd oedd Lisa, Beca, Sian Roberts Jones, Helen, Delyth a Llinos ac offirmwyd gweddi gan Sian Jones. Mwynhawyd cyflwyniadau amrywiol yn cynnwys grwpiau canu a chyd adrodd a datganiad swynol gan Trystan Bryn a'r cyfan yn cyfleu diolch i Dduw am ei haelioni ac yn cynnwys ychydig o hiwmor hefyd. Y deuaudwyr oedd Elan a Sioned a'r unawdwyr oedd Lisa, Cerys, Grace, Gwenllian a Ffion. Yn dilyn darlenniad o hanes Iesu yn bwydo'r pum mil cafwyd sgwrs gan Elan a'i brawd Osian yn pwysleisio'r pwysigrwydd o rannu gyda'n cyd-ddyn sy'n dioddef yma yn Llambed a thu hwnt. Cafwyd cyfle wedyn i wyllo ffilm o'r stori ar y sgrin yng ngofal ein gweinidog. Yn ôl yr arfer fe'n swynwyd gan gyfraniad y plant lleiaf mewn pennill a chan sef Darcey, Tudur, Rhun, Trystan Wyn, Trystan Bryn, Ifan, Lynwen ac Esther a phob un ohonynt yn amlwg wrth eu bodd gan ddod â gwên i wynebau'r gwrandawyr. Y cyfeilyddion oedd Alwena, Elan a Janet. Braf oedd gweld dau aelod newydd o'r Ysgol Sul yn cymryd rhan sef Ifan a Lynwen a hefyd Esther yn ymuno gyda nhw.

Talodd ein gweinidog y Parch Jill Tomos deymged uchel i'r plant a'r bobl ifanc am eu cyfraniadau graenus, i'r rhieni am eu cefnogaeth hwythau, i'r cyfeilyddion, i bawb am ddod ac i Janet am y trefniadau ac am ei holl syniadau a'r amrywiaeth o eitemau.

Roedd y plant wedi dod â bwydydd o bob math i'w cyflwyno i Fanc Bwyd y dref.

Wrth droi tuag adref roedd pawb yn datgan eu llawenydd o gael y fraint o gyd-addoli gyda'r plant a'r bobl ifanc mewn gwasanaeth bendigedig.

Llun uchod: Cwrdd Diolchgarwch Ysgol Sul Noddfa. Mae Trystan Bryn a'i chwaer Lynwen yn absennol o'r llun.

ddiwedd Oes yr Ia. Felly byddai teithio dros y tir o'r Cyfandir yn beth cyffredin yr adeg honno ac wrth ddarganfod pâr cyfan o gymr carw dywedwyd bod modd eu dyddio a gweld pryd y bu'r creadur hwnnw'n cerrdded y tir.

Mae'r gwaith o gloddio a dehongli yn bwysig er mwyn cael gwybodaeth am y gorffennol ac er mwyn gofalu ar ôl, ac amddiffyn, yr arfordir. Ond tybed am ba hyd y bydd hyn yn bosib?

Diolchwyd i Nigel Nayling am noson ddiddorol iawn gan y Cadeirydd. Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Tachwedd 15fed, 7.30yh yn Hen Neuadd y Brifysgol, pan fydd Richard Rees yn sôn am 'Argaeau Llundain na ddaeth i Gymru, a chais Cyngor Sir Llundain i ddwyn yr Afon Tywi'. Croeso cynnes i bawb.

Cynhaliwyd cyfarfod agoriadol Aelwyd yr Urdd yn Ysgol Bro Pedr nos Fawrth 4 Hydref. Etholwyd y swyddogion canlynol ar gyfer y flwyddyn sef Cadeirydd Beca Jenkins, Ysgrifennydd Elan Jones a Thrysorydd Beca Ann.

Cytunodd Janet a Geinor Medi gario mlaen fel Arweinyddion er bod Geinor yn methu â bod gyda ni y tymor hwn. Edrychwn ymlaen at ei chymorth hi a Delun y tymor nesaf. Yr ydym yn ffodus iawn eleni o gael cyngor a help gan Sian Elin sydd yn Swyddog Cynorthwyol y mudiad yng Ngheredigion.

Cafwyd llawer o sbri wedyn yn cymryd rhan yn y gêm Cyrlio dan gyfarwyddyd Rhydian, Swyddog Cynorthwyol yr Urdd. Cafwyd chwarae brwdfrydig iawn yn enwedig gan y rhai ieuegaf! I gloi'r noson bu'r aelodau yn chwarae gêmâu adeiladu tîm ac eto

Llanbedr Pont Steffan

cafwyd llawer o hwyl. Diolchodd Beca i Rhydian am noson ddfyr iawn.

Nos Fawrth 18 Hydref daeth criw niferus ynghyd i sesiwn o goluro Calangaeaf yng ngofal Manon Williams. Wedi i Manon arddangos ei sgiliau gyda Mali bu pawb wrthi'n ddiwyd iawn yn coluro ei gilydd ac roedd yr olygfa ar ddiwyd y nos yn werth ei gweld. Roedd yr aelodau i gyd wedi mwynhau eu hunain yn fawr ac yn edrych braidd yn wahanol a dweud y lleiaf! Diolchodd Beca Ann i Manon am noson hynod ddiddorol a hwyliog.

Erbyn i Clonc ddod o'r wasg bydd yr aelodau wedi cael sesiwn Clocsfrit gan neb llai na Tudur Phillips o'r rhaglen Stwnsh ar S4C. Bydd cyfarfod olaf y tymor ar 15 Tachwedd, sef noson o gystadlaethau ysgafn. Cynhelir oedfa Sul yr Urdd yn Shiloh nos Sul 13 Tachwedd am 5 o'r gloch ac aelodau'r Aelwyd a'r Adran yn cymryd rhan. Cesglir at achos da. Croeso cynnes i bawb.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â phawb sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y mis a aeth heibio.

Grŵp Trafod Amaethyddol Llanbed

Cafwyd dechrau arbennig i'r tymor eleni ar 15 Medi gydag ymweliad â fferm ein Cadeiryddes, sef Anwen Hughes, Bryngido, Llanarth. Roedd nifer fawr o aelodau'n bresennol a chafwyd noson ragorol yn gweld y stoc a chael cyngor am werth porfa gan Nigel Hallows. Mae'r teulu'n ffermio 250 o ddefaid croes a phur

Highlander a thua 150 o ddefaid Llŷn pedigri ar 140 cyfer. Trefnwyd lluniaeth ar gyfer pawb ddiwyd y noson. Diolch i Anwen a'r teulu am y croeso i Bryngido.

Ar 27 Medi croesawyd Amaethwyl Clunderwen a Cheredigion atom a chafwyd hanes y Cwmni gan Keith Gosney. Mae'r cwmni'n estyn o Sir Benfro i Bwllheli ac mae darpariaeth eang ar gael ar gyfer y ffermwr. Cafwyd trafodaeth fywiog am y cwmni a'r sector amaeth yn gyffredinol. Noddwyd pryd o fwyd blasus gan y cwmni a diolchwyd iddynt gan Emyr Evans. Etholwyd Mr Eryl Price Esgaireinon yn Is-Gadeirydd am y tymor. Diolchodd Eirug Jenkins i bawb am eu cefnogaeth yn ei dymor fel Cadeirydd y llynedd a throsglwyddodd yr awenau i Anwen Hughes a wnaeth longyfarch Eirug ar ei lwyddiant gyda'r Gymdeithas Tir Glas.

Croesawyd Wendy Jenkins o Gwmni CARA atom ar 11 Hydref i drafod sut i wneud ein busnesau'n fwy effeithiol drwy ddadansoddi cyfrifion y fferm a'u cymharu ag ystadegau a ddarperir gan Brifysgol Aberystwyth yn flynyddol ar gyfer ffermydd o'r un maint. Awgrymodd nifer o welliannau a rhoddodd gyngor pwrpasol ar adeg sy'n eitha ansicr i'r byd amaeth yng nghyswllt BREXIT. Diolchodd Aneurin Davies iddi am ei pharodrwydd i ddod atom.

Mae rhaglen ddiddorol iawn wedi ei threfnu ar gyfer y tymor gan y Swyddogion a braf yw gweld cefnogaeth dda gan aelodau yn y cyfarfodydd

Lansio 'Ar Grwydir'

Ar Grwydir gan Goronwy Evans

Ar yr 11eg Hydref cynhaliwyd noson lansio cyfrol newydd 'Ar Grwydir' gan Goronwy Evans yn Festri Brondeifi Llanbed. Dyma ffrwyth blynyddoedd o ymchwil gan yr awdur am yr hen grwydriaid a fu'n cerdded ein hardaloedd ni.

Ceir hanes dros 120 o grwydriaid yn y gyfrol, pobl fel Twm Shot, Bili Bwtsiwr Bach a George Gibbs. Dywed Hedd Bleddyn, Penegoes mewn llythyr at Goronwy wedi'r noson lansio "Rwyf wedi dotio ati. Mae yn arbennig ac yn gofnod pwysig o gyfnod sydd bron yn angof."

Roedd y crwydriaid hyn wedi gorfod codi pac am wahanol resymau a llawer ohonyn nhw oherwydd effeithiau'r Ail Ryfel Byd. Cerdded ar hyd y ffyrdd oedd llawer ohonyn nhw, eraill ar gefn beic ac ambell un yn gwthio cart neu hen bram a chysgu mewn llofft stabl, sgubor, sied wair neu feudy.



Goronwy Evans yn llofnodi ei lyfr 'Ar Grwydir' sy'n olrain hanes nifer fawr o grwydriaid a arferai droedio Ceredigion, Caerfyrddin a Phenfro i Jon Meirion, Ronnie Davies a Gareth Jones yn y noson lansio yn Festri Brondeifi, Llanbed.

Gellir prynu copi o'r gyfrol ddiddorol hon gan yr awdur ei hun yn Y Mans, Llanbed am bris o £9.95. Anrheg hyfryd ar gyfer y Nadolig.

Dyma englynion gan Hedd Bleddyn i gyfarch y gyfrol:
'AR GRWYDIR'

Goronwy a ddwg rinwedd - a ddelwedd
Fforddoliau a'u mawredd;
A gwerth eu taith faith hyd fedd
O rodio mewn anrhydedd.

Eu cyfran rhwng clawr cyfrol - a gafwyd
I gofio'n arwrol
Am eu rhawd, ac nid ffôl
Yw doniau'r crwydriaid dynol.

Hanes yw'r cyfan heno - yn ein byw
Am ein byd wnaeth gilio,
A rhoed braint i grwydriaid bro
Yn gyfoeth gwerth ei gofio.



Noson lansio llyfr Goronwy Evans cawsom ein diddanu gan Kees Huysmans gydag Elonwy ei wraig yn cyfeilio, ynghyd â Doreen Lewis ac Alun Wyn Dafis.

Sue's Hair Stylist

- Edafu
- Trin ewinedd
- Trin traed

- Triniaeth hwyneb
- Lliwio ael a lliwio blew llygaid

Cynigion arbennig yn yr ystafell driniaeth newydd

Ystafell driniaeth newydd ar agor nawr!!

- Tylino pen Indiaidd
- Tylino Sweden
- Tylino cerrig poeth a llawer mwy o driniaethau

Dewch i brofi tylino pen Indiaidd a fydd yn eich rhyddhau o straeu a thensiwn, ac yn eich gadael yn teimlo yn hamddenol, wedi adfywio ac all fywlocau

Cysylltwch â:
Sue Hairstylist
Pencader
Rhif ffôn - 01559384794

Ffarmers

Bethel, Cwm Pedol

Cynhaliwyd gwasanaeth 'Croeso Ynghyd' ym Methel ar yr 21ain o Awst pryd y cafwyd cyfle i groesawu cyfeillion o eglwysi'r cylch i ymuno â ni mewn oedfa gymun yng ngofal y Parchedig Huw George, Llandisilio. Cafwyd pregeth bwrpasol, a digon i feddwl amdano, ac i ddilyn, ymunodd pawb yn Neuadd Bro Fana i fwynhau barbeciw. Diolch i bawb a ymunodd â ni o'r gwahanol enwadau. Gobeithio y medrwn drefnu rhywbeth tebyg eto'r flwyddyn nesaf.

Cafwyd ein Cwrdd Diolchgarwch eleni ar nos Fercher, y 14eg o Fedi. Pregethwyd gan y Parchedig John Gwilym Jones, Caerfyrddin, a chafwyd eto oedfa hyfryd.

Gallwn gyhoeddi fod yr adeiladwyr bellach wedi dechrau'r gwaith atgyweirio ym Methel. Bydd yr adeilad yn cael ei ail blastro, ac fe osodir ffenestri a drysau newydd i'r Capel hefyd. Tra bod y gwaith yn mynd yn ei flaen, cynhelir oedfaon yn y festri.

'DEFIBRILLATOR'

Soniwyd mewn rhifyn blaenorol o'r papur bro fod Cyngor Neuadd Bro Fana wedi llwyddo i godi arian ar gyfer prynu defibrillator i'r gymuned, a da cael cyhoeddi fod y teclyn bellach wedi cyrraedd, ac mae ar gael at ddefnydd o fewn y gymuned pan, ac os, fydd angen.

Deuir o hyd iddo mewn blwch diogel ar wal allanol Y Drovers Arms yng nghanol y pentref. Rydym yn ddiolchgar i Fenter Gymunedol y Drovers ac i Ben Bouvet am ganiatau i ni leoli'r teclyn ar yr adeilad. Os am ragor o wybodaeth, cysylltwch gyda Judy Jenkins neu Gwyneth Richards.

Neuadd Bro Fana

Nos Wener, y 25ain o Dachwedd am 7.30, cynhelir Bwffe a Noson yng nghwmni Lyn Ebenezer, y darlledwr a'r awdur o Bontrhydfendigaid. Mae'n siŵr y bydd hon yn noson arbennig – hwyrach y cewn ychydig o hanes 'Operation Julie' a'r cysylltiad â Ffarmers nôl yn y 70au am fod Lyn wedi ysgrifennu llyfr am yr helynt. Bydd tocynnau ar gael gan aelodau Cyngor y Neuadd.

Y nos Sul cyn y Nadolig, sef y 18fed o Ragfyr, cynhelir ein Cyngerdd a Noson o Garolau blynyddol. Ceir manylion llawn yn y rhifyn nesaf.

Rydym hefyd yn trefnu noson o adloniant ar gyfer Gŵyl Ddewi 2017.

Diolch

Dymuna Mrs Ray Davies, Peronne ddiolch yn gynnes iawn i bawb am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd wedi cyfnod yn yr ysbyty. Diolch o galon.

Cellan

Capel yr Erw, Cellan

Cofio un o blant y capel a syrthiodd yn y Rhyfel Mawr 1916

Cafodd deugain mil o Gymry eu lladd yn y rhyfel byd cyntaf, ac ychydig fisoedd yn ôl cafwyd cyfle yng Nghapel yr Erw, i gofio am un ohonynt sef John Davies, Bayliau. Roedd yn frawd i Sarah Ann sef mam-gu Eleri, Andrew, Bleddyn a Gethin (Bayliau gynt). Yn ystod y gwasanaeth cafodd y teulu gyfle i rannu ei hanes, a hyn ar achlysur canmlwyddiant ei farwolaeth ar yr 20fed o Orffennaf 1916 yn 23 mlwydd oed.

Mae hanes dwy flynedd ddiwethaf ei fywyd ar gael yn ei eiriau ei hun mewn llythyron a ysgrifennodd at un o'i chwiorydd sef Sarah Ann. Stori ydyw sy'n olrhain hanes mab fferm o bentref Cellan yn mynd i weithio mewn siop adrannol fawr yn Llundain, yn ymuno â'r fyddin, ac yn sôn am ei hyfforddiant milwrol, a'i brofiadau ar faes y gad yn Ffrainc.

Mae'r llythyron (wedi'u hysgrifennu mewn Saesneg perffaith) yn hir a disgrifiadol, ac wrth eu darllen gwelwn ei gymeriad annwyl, ei gonsym am ei deulu yng Nghellan, a'r gyfathrach agos sy'n amlwg rhyngddo a'i chwaer – pob llythyr yn gorffen – "Your dear brother John."

Ym mis Tachwedd 1915 ymunodd â'r fyddin a chawn hanes ei hyfforddiant gyda'r London Regiment 1st Surrey Rifles. Byddai ei lythyron bob amser yn rhai hapus ac optimistaidd beth bynnag yr amodau. Mae'n 'sgrifennu "This morning we had another 10 mile march. It is really very nice marching with the band playing to keep us cheerful. We are also allowed to sing and smoke so you can imagine us being quite happy." Am ei amodau byw yn ystod ei hyfforddiant mae'n dweud, "The people I am billeted with are most kind to us ... We are fed like Lords." Ar ôl symud i safle arall yn Salisbury mae'n disgrifio ei wely gwellt yn "quite warm and comfortable," a

dyma'r agwedd bositif gawn ganddo. Mae'n siŵr ei fod am roi'r argraff i'w deulu nad oedd angen poeni amdano. Hyd yn oed ar faes y gad yn Ffrainc bythefnos cyn ei ladd mae'n ysgrifennu, "We live in dugouts which are quite decent... big enough to hold over a hundred men. There is room for all of us to lay down and sleep quite comfortable." Hwn oedd y llythyr olaf iddo ei ysgrifennu. Fe'i lladdwyd ar yr 20fed o Orffennaf ac fe'i claddwyd ym mynwent y fyddin yn Louez Duisans.

Mae'n anodd dychmygu effaith ei farwolaeth ar ei deulu, ond mae lluniau ar gael yn dangos ei fam, ei frawd, a'i dair chwaer yn ymweld â'i fedd yn Ffrainc. Does dim angen nodi fod y llythyron a'r lluniau yn drysorau caiff eu cadw'n barchus gan y teulu er mwyn i genedlaethau'r dyfodol eu gwerthfawrogi. Ymunodd ei frawd Evan Andrew â'r fyddin, a hyn ar ôl marwolaeth John. Roedd ef hefyd yn gweithio'n Llundain ac yn ffodus daeth yn ôl o'r rhyfel yn ddianaf. Bu fyw yn Llundain weddill ei oes. Roedd Sarah Ann yn ffermio fferm Bayliau a symudodd i Cnwcy-Fallen ar ôl ymddeol. Priododd ei chwaer arall â'r Parchedig D. R. Pugh, Caerffili. Gweinidog hefyd oedd gŵr Margaret (Peg) sef D. J. Williams, Ystrad Mynach. Roedd Margaret Williams yn aelod ffyddlon yng nghapel Minnie Street, Caerdydd, hyd ddechrau'r wythdegau tan iddi ddychwelyd i fyw yng Nghellan. Bu Anti Peg farw yn 92 mlwydd oed.

Adroddiad gan Bleddyn Williams.

Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau i Alun a Marian Davies, Llwynifan ar ddathlu eu priodas ruddem ddechrau mis Hydref.

Dathlu

Mi ddathlodd Andrew Williams, Ffosgoy ei ben-blwydd yn 70 oed yn ddiweddar. Gobeithio eich bod wedi mwynhau, llongyfarchiadau i chi a phob dymuniad da.

PLANT MEWN ANGEN
Capel Sant Tomos, Llanbed
Tachwedd 18fed
10yb i 5.30yp

CYMRAG

Ariennir yn
rhannol gan
**Lywodraeth
Cymru**

Nid yw'r golygydd o
reidrwydd yn cytuno
ag unrhyw farn
yn y papur hwn.

Eglwys Sant Iago,
Cwmann

CYNGERDD NADOLIG

Nos Sul, 4ydd Rhagfyr
am 6.00y.h.

Gyda 'Lleisiau'r Werin'
Unawdwyr: Sioned a
Siriol Howells.

Mynediad: £7.00


**THE
FALCONDALE**
HOTEL & RESTAURANT
GWESTY A BWYTY

Parti Nadolig 10fed o Ragfyr

Ymunwch â ni am noswaith o hwyl a sbri

- Gwydraid o Prosecco
- Bwffet 2 gwrs
- Kirilee - Canu poblogaidd

£29 y pen
Ffoniwch er mwyn archebu,
neu ewch i'r wefan

01570 422910

info@thefalcondale.co.uk

www.thefalcondale.co.uk

Ysgol Bro Pedr

**Ysgol
Bro Pedr**
A fo ben bid bont

Ysgol Bro Pedr Campws Iau

Gyda thristwch y ffarweliwn â dwy oruchwylwraig ginio gydwybodol sydd wedi bod yn driw i'r ysgol am flynyddoedd maith, sef Mrs Gloria Thomas a fu gyda ni ers pymtheg mlynedd a Mrs Wendy Moore ers un deg saith mlynedd. Dymunwn yn dda i'r ddwy a diolch o galon iddynt am eu gofal dros nifer fawr o blant dros y blynyddoedd. Cofiwch gadw mewn cysylltiad. Fel rhan o themau'r dosbarthiadau bu blwyddyn 3 yn Techniquet yng Nghaerdydd a blynyddoedd 4, 5 a 6 yn Sain Ffagan. Cafwyd diwrnodau buddiol iawn â'r plant yn dysgu trwy fwynhau ac yn elwa'n ddirfawr o'r profiadau. Bu disgyblion blynyddoedd 1 a 2 yn cynllunio parti ar ddiwedd y thema "Hapusrwydd" gan greu brechdanau, addurno bisgedi a hetiau.

Bu'r disgyblion yn brysyr yn llenwi bocsys Nadolig i'w trosglwyddo i blant yn Romania a diolch i bawb a gyfrannodd.

Braf oedd cael croesawu rhai o'n llywodraethwyr i'r ysgol unwaith eto a diolch iddynt am ddod atom yn y sector iau, sef Cyngorydd Hag Harris, Mrs Anthea Jones a Mrs Elin Jones. Gwnaethant fwynhau'r daith ddsu ac edrych ar waith y plant. Gwnaeth nifer o blant lenwi'r bagiau dillad "Bags2school" a diolch am yr ymdrech i godi arian i'r ysgol. Casglwyd swm sylweddol o arian ar ddiwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd yr Urdd ar draws y campws - cafodd pawb gyfle i ymgymryd â gweithgareddau gwahanol ac i gyfarfod â Mr Urdd ei hun. Bu Mari o gwmni Theatr Arad Goch yn gwneud gweithgareddau drama gyda disgyblion blwyddyn 2 a chafwyd tipyn o hwyl yn ei chwmmi wrth berfformio. Diolch i Mr Thomas a Mr Rees a fu wrthi'n paratoi'r plant ar gyfer cystadleuaeth Rygbi'r Urdd. Gwnaeth y bechgyn yn arbennig o dda gan ennill tair gêm a methu o drwch blewyn â mynd i'r rownd gyndderfynol. Daliwch ati bois.



Diolch i'r Canon Andy Herrick o Eglwys Sant Pedr a ddaeth i gynnal Cwrdd Diolchgarwch yn yr ysgol. Diolch hefyd i Jake a Woody, Pobyddion Lewis Bakery am goginio torth o fara arbennig iawn i ni.



Rhai o ddisgyblion Campws Iau Ysgol Bro Pedr sydd wedi paratoi bocsys Nadolig i'w danfon i blant Romania. Diolch yn fawr i bawb.



Dyma lun o dîm rygbi Ysgol Bro Pedr a fu'n cystadlu yn ddiweddar yng nghystadleuaeth Sirol yr Urdd gan wneud yn arbennig o dda. Diolch i Mr Thomas a Mr Rees am eu gwaith gyda'r bechgyn.



Pwyllgor ABCh (Addysg Bersonol a Chymdeithasol) – Yn cwrdd yn gyson i drefnu gweithgareddau addas ar gyfer diwrnodau ABCh Bro Pedr.



Pwyllgor Eco – Mae'r pwyllgor yn cwrdd yn gyson i drefnu gweithgareddau a chreu polisiau sy'n sicrhau bod disgyblion yn dilyn cod eco'r ysgol.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

*Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion*

Ieuan Jones
Adferwr Lluniau
Cwrtycadno



Gwasanaeth
troi
Vhs i Dvd

Rhoi bywyd newydd i hen lun

Ffôn: 01558 650153
e-bost: ieuan@glynhebog.co.uk
Y we: cwrtphotorestoreing.com

T. Emyr Jones
Adeiladwr



Araul, Cwmann
01570 423921
07867 945174

ANDREW JAMES

PLYMWR PROFIADOL



Gwasanaethu boiler olew
Gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi a cheginau
Ffôn: 07811052757
E-bost: dandrewj@icloud.com

**Gwersi TELYN a
Gwersi PIANO preifat**



Am wybodaeth bellach
cysylltwch â
Georgina Cornock-Evans
07967 648336

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffyrnau Olew
- Pympiâu Gwres o Ffynonhellau'r
ddaeir a'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com

Drefach a Llanwenog

Capel Bethel

Cynhaliwyd cyfarfod Diolchgarwch capel Annibynnol Bethel nos Fawrth, Hydref 4ydd a daeth tyrfa dda ynghyd. Gweinidog y capel sef y Parchedig Dr. Rheinallt Davies oedd yn llywyddu'r oedfa a Gillian Jones oedd yr organyddes. Dechreuwyd yr oedfa gan Gillian Jones a adroddodd ddetholiad o'r 'Cynhaeaf', sef awdl fuddugol y Prifardd Dic Jones yn Eisteddfod Genedlaethol Aberafan hanner can mlynedd yn ôl ym 1966. Cafwyd pregeth berthnasol ac effeithiol gan y gweinidog gwadd, sef y Parchedig Jill Thomas a fu'n olrhain nifer o'n harferion heddiw nôl i gyfnod yr Iesu yng ngwlad Palestina. Yn ystod yr oedfa canwyd un o emynau D Jacob Davies a anwyd 100 mlynedd yn ôl ac fe gyflwynwyd peth o'i hanes gan Audrey Phillips cyn canu'r geiriau. Awdur un arall o'r emynau a ganwyd yn ystod yr oedfa oedd W J Gruffydd, ac yntau hefyd wedi'i eni union ganrif yn ôl ym 1916. Rhoddwyd ychydig o gefndir y Prifardd hwn gan Jane Jones cyn i'r gynulleidfa ganu'r emyn. Cafwyd paned o de yn y festri i gloi'r noson.

Ysgol Llanwenog

Cynhaliwyd ein Cwrdd Diolchgarwch blynyddol ddechrau'r mis yn Eglwys Santes Gwenog. Daeth torf dda o rieni a thrigolion lleol ynghyd i fwynhau clywed y plantos yn canu ac yn llefaru. Cyflwynodd y disgyblion roddion o lysiau a ffrwythau i'r ficer Suzy Bale wrth yr allor. Wedi gwasanaeth hyfryd aethpwyd â'r rhoddion i gartref yr henoed Maes y Felin iddynt gael eu mwynhau.

Trefnodd y Cyngor Ysgol brynhawn coffi llwyddiannus iawn a chodwyd £360 i elusen Ambiwylans Awyr Cymru. Diolchodd y cadeirydd Elen Morgan i bawb am gefnogi ar y dydd ac i bawb wnaeth gyfrannu tuag at yr achos teilwng yma. Diolch i holl aelodau'r Cyngor am gydweithio yn dda i sicrhau prynhawn trefnus iawn.

Bu plant Cyfnod Sylfaen y tair ysgol gyda'i gilydd ar daith addysgiadol i Dregaron. Buont yn

ymweld â Chanolfan y Barcud Coch ac â Gorsaf Dân y pentref. Diolch yn fawr i Mrs Sioned Mills am drefnu diwrnod arbennig.

Cynhaliwyd Clwb yr Urdd yn wythnosol gyda chyfle i nifer fawr o blant fwynhau gweithgareddau megis celf a sesiwn o'r gêm 'Curling' a ddarparwyd gan Rhydian, un o swyddogion yr Urdd yng Ngheredigion. Diolch yn fawr iawn iddo.

Daeth dau swyddog o'r heddlu i'r ysgol i siarad â'r plant am ddiogelwch ar noson Calan Gaeaf yn ogystal â Noson Tân Gwylt. Roedd eu negeseion yn rhai pwysig iawn ac ymatebodd y plant yn frwdfrydig wrth holi llawer o gwestiynau.

Cafwyd ymateb da iawn eto eleni i'r alwad i greu bocsys esgidiau yn llawn rhoddion ar gyfer plant Romania. Bu'r plant yn brysur yn helpu llwytho'r fan yn barod ar gyfer y daith i'r wlad honno cyn bo hir.

Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig fore Gwener yr 21ain i gofio am drychineb Aberfan. Esboniwyd yr hanes ar ffurf pwerbwylt ac wedi gwrandao ar ddarn o gantata Karl Jenkins cafwyd munud o dawelwch ar yr amser penodedig i gofio'r hanes hynod o drist.

Ddydd Sawrn cyntaf gwyliau'r hanner tymor cynhaliwyd ras hwyl flynyddol yr ysgol. Roedd hi'n ddiwrnod heulog o Hydref ac fe ddaeth torf wych ynghyd i fwynhau prynhawn ardderchog o redeg ar gyfer pob oedran. Diolch yn fawr iawn i brif noddwyr y dydd sef – Gwyn Lewis, Siop Garpedi, Heol y Bont Llanbed, Canolfan Ailgylchu LAS, Cyflenwyr Nwyddau Adeiladu Cardi, Cyfreithwyr Williams a Bourne, Siop Gymunedol Capel Dewi, Simon Hall, Cigydd Heol y Coleg, Llanbed ac I Tech Heol y Bont, Llanbed. Diolch hefyd i aelodau brwdfrydig Cymdeithas Rien i'r ysgol am drefnu diwrnod bendigedig a wnaeth sicrhau swm arbennig oddeutu £1,000 i'r ysgol. Diolch i bawb am gefnogi.

Y Gymdeithas Hŷn

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Gaeaf yn festri Capel Bethel,

Drefach, dydd Mercher

Hydref 14eg, gyda Dilwen George yn y gadair. Croesawodd yr aelodau ynghyd a braf oedd gweld dwy o ffrindiau tripiâu'r haf yn bresennol.

Dymunwyd gwellhad buan i'r aelodau sydd yn anhwylys ar hyn o bryd a phen-blwydd hapus i ddwy o'r aelodau. Cyfarchion arbennig hefyd i Brenda ac Elgan Jones, yn dathlu eu Priodas Aur ar yr 22ain o'r mis.

Aed ati wedyn i gynnal y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Dywedodd y Cadeirydd ein bod wedi cael blwyddyn lwyddiannus unwaith eto yng nghwmni siaradwyr y gaeaf ac wrth deithio dros fisoedd yr haf. Da oedd cael help ychwanegol i drefnu'r tripiâu a diolchodd i bawb am gyd-weithio er sicrhau'r mwyniant. Tristwch oedd ein bod wedi colli aelod yn ystod misoedd yr haf, sef Mrs Betty Phillips, a chydymdeimlwyd eto â'r teulu.

Derbyniwyd adroddiad ariannol trylwyr gan Brenda Jones, y Trysorydd, a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn ffafriol iawn. Derbyniwyd siec am £150 gan Bwyllgor Mabolgampau Cwrtnewydd yn ystod misoedd yr haf ac erbyn hyn £200 arall i'w ddefnyddio at achos penodol yn ystod misoedd y gaeaf. Diolch yn fawr iddynt am eu caredigrwydd.

Dymuniad Mary Jones, Penrheol oedd camu o'i swydd fel Is-ysgrifenyddes a bodlonodd Jane Jones, Pwllbilwg ymgymryd â'r swydd honno. Ni ddaeth enwebiad ar gyfer y swyddi eraill, felly cynigiwyd fod pawb yn aros yn eu swyddi.

Trefnwyd lleoliadau a siaradwyr ar gyfer y gaeaf, a bydd Cinio Nadolig mis Rhagfyr yng Nghlwb Rygbi Llambod yng nghofal Mair a Tony Hatcher, Cegin Gwenog.

Mwynhawyd lluniaeth ysgafn drwy garedigrwydd gwagedd Bethel a diolchwyd iddynt gan Yvonne Davies.

Bydd y cyfarfod nesaf ddydd Mercher, Tachwedd 9fed yng Nghapel Brynteg am 1.30 yp., pan fydd Dafydd Williams yn dod i siarad am ei waith fel Parafeddyg.

Eglwys Santes Gwenog

Croesawyd dau barti o ymwelwyr i'r eglwys yn ystod mis Medi: Merched y Wawr, Gorsgoch ar y 7fed a Merched y Wawr, Y Dderi, Llanybi ar yr 21ain. Fe'u croesawyd gan Mrs Mary Thomas, Ffosffald, a hi fu'n rhoi hanes yr eglwys iddynt. Diolch am eu diddordeb a'u cyfraniadau ariannol at gronfa'r eglwys. Diolch i Mrs Viria Jones, Gellideg am ei help hithau.

Dyddiadau i'w cofio: Nos Wener, Tachwedd 18fed, cynhelir Cwis yn yr Eglwys Fach. Pris mynediad yn £5, sy'n cynnwys caws a gwin. Dewch i fwynhau noson hwylus a chymdeithasu.

Nos Wener, Rhagfyr 2il, edrychwn

ymlaen at glywed Gwennan Jenkins a Siwan Davies yn rhoi hanes eu taith i'r Wladfa. Croeso cynnes i bawb. Bydd swper blasus i ddilyn – Chili neu Bastai'r Bugail (Shepherd's Pie), pwddin a gwin. Pris £10. Enwau i Mrs Lynne Goodall, 481256.

Dymunwn wellhad buan i bawb sy'n anhwylys neu'n fethedig, a chydymdeimlwn yn ddwys â'r teuluoedd sydd wedi colli anwyliad yn ddiweddar.

Clwb cant mis Hydref: 1. Ruth Blake, (Iwerddon); 2. Mary Thomas, Ffosffald; 3. Oliver Abbott, Taunton.


Sefydliad y Merched

Cynhaliwyd y cyfarfod diweddaraf ar nos Fawrth, Hydref 6ed, yn Ysgol Llanwenog.

Gan fod y Llywydd, Carol Denham, wedi cael llawdriniaeth ar ei llygad, cymerwyd y gadair gan Sian Davies.

Aeth y busnes yn hwylus gydag aelodau yn cynnig eu henwau ar gyfer gweithgareddau'r sir, e.e. Gwersi Cyfrifiadur, Cyfarfod Blynyddol, Cinio ACWW, Canu Undebol Nadoligaidd a Rali'r Gaeaf. Danfonwyd dymuniadau da at y Llywydd gan ddymuno iddi wellhad llwyr a buan.

Yna, cyflwynwyd y person gwadd, sef Mary o Swyddffynnon. Roedd yr aelodau wedi dod â llyfr clawr meddal yr un a dangosodd Mary iddynt sut i blygu'r tudalennau er mwyn creu creadur 3D.



Draenog oedd y creadur ac ar ôl defnyddio tip ffelt i greu trwyn du a gludo dau lygad roedd yn edrych yn dda! Cynigodd Angela bleidlais o ddiolch ac yna cafwyd amser i gymdeithasu dros baned.

Mae yna groeso cynnes i aelodau newydd neu i ymwelwyr daro heibio i gael blas ar y gweithgareddau. Yn ogystal â'r cyfarfodydd misol ceir llawer o weithgareddau cymdeithasol, fel teithiau cerdded, tripiâu neu'n syml cwrdd am goffi a sgwrs yn Llanbed. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn yr ysgol ar Dachwedd 3ydd am 7.30 o'r gloch.

Sul y Cofio

Cynhelir y Gwasanaeth Coffa eleni yng Nghapel Bethel Drefach, ddydd Sul, Tachwedd 13eg. Nodwch fod yr amser wedi newid o'r amser arferol i 2 o'r gloch.



Bu'r Cyngor yn brysur yn trefnu diwrnod i gofio T. Llew Jones. Bu'r plant yn mwynhau gweithgareddau amrywiol yn ogystal â dysgu am fywyd y bardd a'r llenor enwog.

Drefach

C.Ff.I. Llanwenog

Buodd y clwb yn llwyddiannus iawn yn niwrnod maes y sir yn Aberystwyth yn ddiweddar.

Y canlyniadau –

Taith natur: Sion O’Keefe ac Elin Davies – 4ydd. Addurno coeden: Twm Ebbsworth a Gethin Morgans – 6ed. Barnu stoc dan 14 oed: Owain Jones – 3ydd, Osian Davies – 5ed, Elin Davies – 6ed, Ben Lewis – 9fed. Tîm yn 1af. Barnu stoc dan 18oed: Ffion Jenkins – 1af, Gethin Morgans – 4ydd, Rhys Davies – 5ed, Twm Ebbsworth – 9fed. Tîm yn 1af. Barnu stoc dan 26oed: Menna Williams – 8fed. Gyrru tractor: Ifan Evans – 3ydd. Ffensio: 4ydd.

Ar ddiwedd y dydd, daeth y clwb yn 3ydd. Os am ragor o wybodaeth am y clwb ewch i www.cffillanwenog.co.uk

Cadair Eisteddfod C FFI Sir Gâr

Ymfalchïwn yn un o blant yr ardal a fu yn llwyddiannus drwy ennill Cadair Eisteddfod y Ffermwyr Ifanc yn Sir Gâr. Siwan Davies gynt o Lys Deri a fu yn fuddugol ac yn aelod nawr o Glwb Dyffryn Cothi. Mae Siwan hefyd yn un o olygyddion CLONC ac yn byw nawr yn nhref Llambled. Pob lwc ar lefel Cymru ganol mis Tachwedd yn Abertawe.

Pen-blwydd arbennig

Yn ddiweddar, dathlodd Geraint Davies, Llys-deri ben-blwydd arbennig tra ar ei wyliau ym Mhatagonia. Gobeithio eich bod wedi mwynhau’r pen-blwydd a’r gwyliau!

Yn yr ysbyty

Gobeithio bod Emyr Jones, Meysydd yn teimlo lawer yn well erbyn hyn yn dilyn ei arhosiad yn yr ysbyty.

Priodas Dda

Ddydd Gwener olaf mis Hydref priodwyd Bedwyr Davies, Afallon a Nicola Higgs o Gwmann. Llongyfarchiadau gwresog i chwi eich dau a phob dymuniad da i’r dyfodol.

Eisteddfodau

Llongyfarchiadau i Elen a Fflur Morgan, Rhyd-y-felin ar eu llwyddiant mewn gwahanol Eisteddfodau yn ddiweddar.

Creu poster



Megan Davies, Ger-y-nant a disgybl Blwyddyn 4 yn Ysgol Cwrtnewydd a enillodd wobr am greu poster ‘Taith y Llaeth’ ynghyd â Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet ar yr Amgylchedd a Materion Gwledig. Cafodd ei hanrhydeddu yn y Sioe Laeth yng Nghaerfyrddin ddiwedd mis Hydref.

Hefyd, enillodd Megan y gystadleuaeth tynnu llun castell yn Eisteddfod y Papurau Bro yn ddiweddar.

Da iawn ti Megan – rwyf yn dipyn o artist!!

O’r Cynulliad

gan Elin Jones AC



Fe fu newyddion mawr yn y Cynulliad y mis yma fydd ag effaith sylweddol ar fywydau pobl yma yng Ngheredigion ac ar nifer o’r sefydliadau a chymunedau cysylltiedig trwy gydol y sir.

Tarodd Plaid Cymru fargen yn y Cynulliad Cenedlaethol gyda Llywodraeth Cymru sydd wedi clustnodi blaenoriaethau gwariant o £279 miliwn dros y flwyddyn nesaf. Dyma’r gyllideb fwyaf i gael ei chytuno arni gan unrhyw wrthblaid yn hanes y Cynulliad. Mae hi’n gweld Plaid Cymru’n diogelu nifer o’n hymrwymadau maniffesto ac yn cael effaith go iawn ar nifer o sefydliadau Ceredigion a phobl ein hetholaeth.

Mae ein colegau Addysg Uwch a Phellach yn hollbwysig i’n heconomi ac i addysg pobl yng Ngheredigion. Rydym wedi llwyddo i sicrhau £30m o gyllid ychwanegol i’r sector trwy Gymru a bydd hyn yn weledol iawn yn ein sir gyda’r ddwy dref brifysgol a Choleg Ceredigion. Yn ogystal â hyn, rydym wedi sicrhau ymrwymiad i adeiladu ar y bartneriaeth rhwng Prifysgol Aberystwyth a’r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol er mwyn gosod sylfeini ar gyfer Ysgol Filfeddygol a chreu canolfan arbenigedd milfeddygol i Geredigion.

Mae’r Celfyddydau yn hollbwysig i Geredigion, ac mewn cyfnod anodd i gyllid ein sefydliadau, rydym wedi llwyddo i gael £3m ychwanegol i’r sector. Mae hyn yn meddwl y bydd cynnydd o 3.5% i gyllidebau’r Llyfrgell Genedlaethol, y Cyngor Llyfrau Cymraeg ac i’r Cyngor Celfyddydau sy’n cyllido cymaint o sefydliadau celfyddydol ac artistiaid trwy gydol Ceredigion.

Bydd ymgrychwr dros ail agor y rheilffordd o Aberystwyth i Gaerfyrddin yn falch iawn i glywed ein bod wedi sicrhau ymrwymiad o £300,000 ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb lawn i’w hail-agor. Fe fyddai hyn yn golygu bod canolbarth a gorllewin Cymru wedi’u hintegreiddio’n llawn i system drafnidiaeth Cymru.

Rydym hefyd wedi llwyddo i sicrhau £15m o fuddsoddiad i wella amseroedd diagnosis ac i driniaeth canser a chyflyrau prin. Mae yna hefyd ymrwymiad o £20m ychwanegol i wella gwasanaethau iechyd meddwl sydd wedi bod ar ei hôl hi o ran cyllid ers amser hir.

Mae yna hefyd newyddion da iawn i’r Gymraeg, gyda £5m ychwanegol wedi’i clustnodi ar gyfer Cymraeg i Oedolion ac i Asiantaeth Genedlaethol yr Iaith. Mae hyn yn gam pwysig iawn wrth geisio sicrhau’r iaith yma.

Drwyddi draw, mae’r gyllideb hon yn un flaengar ac yn dangos cydweithio aeddfed gyda Llywodraeth ar ei fwyaf effeithiol erioed yn hanes y Cynulliad. Edrychaf mlaen at weld yr effaith ar hyd a lled Ceredigion.

Fues i hefyd yn cymryd rhan mewn dadl yn y Cynulliad y mis hwn dros sefydlu Senedd i’r Ifanc. Mae hi’n hollbwysig ein bod ni yn sicrhau bod pobl ifanc yn cymryd rhan yn ein prosesau democrataidd. Dydw i ddim yn derbyn nad oes gan bobl ifanc ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth. Pob tro rydw i’n cwrdd â phobl ifanc trwy Geredigion maen nhw’n dweud wrtha i sut mae gweithredoedd y Cynulliad yn effeithio arnyn nhw. Fe fydd sefydlu Senedd i’r ifanc yn sicrhau platform go iawn iddynt.

Llangybi a Betws Bledrws

Hamdden

Cyfarfu yr aelodau ar Hydref 7fed yn Ysgol Y Dderi dan lywyddiaeth Janet Farrow. Cydymdeimlwyd â phawb a oedd wedi bod mewn profedigaeth ers y cyfarfod olaf. Diolchwyd i Rita Jones am deipio’r rhaglen am y flwyddyn nesaf ac i Barry Williams am archwilio’r cyfrifon.

Y gŵr gwadd oedd y Bon Michael Morgan ac fe gafwyd anerchiad diddorol am y Defibrillator a mawr oedd gwerthfawrogiad y gynulleidfa am ei sylwadau. Diolchwyd yn gynnes iawn iddo gan Sue Wellings am brynhawn mor ddiddorol a llawn ffeithiau.

Enillwyd y raffl gan Michael Morgan, Sally Davies, Alunda Jones, Mair Spate, Barry Williams, Janet Farrow, Rowena Williams, Sue Wellings a Rita Jones.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 4ydd yn Ysgol Y Dderi pan fydd Mr a Mrs Yeomans yn arddangos lluniau o’i gardd yn Llanio. Croeso i unrhywun ymuno.

Achlysur Arbennig

Llongyfarchiadau calonnog i Mr a Mrs R. Evans, Godre’r Coed ar ddathlu Pen-blwydd Priodas arbennig iawn. Gobeithio y cewch flynyddoedd eto o ddedyddwch a iechyd yn y dyfodol.

Adferiad

Dymuniadau gorau i Bon Melfyn Jones, Penbank ac i Mrs Rowena Williams, Maeslyn am wellhad buan a llwyr â’r ddau wedi bod mewn ysbytai yn ddiweddar. Brysiwch wella.

Merched y Wawr Y Dderi

Noson i’r aelodau ar ein tir ein hunain oedd hon yn Ysgol Y Dderi gyda’r Llywydd Gwyneth Jones yn y gadair.

Roedd yr aelodau wedi dod â’u hoff rysâit i’w rhannu ac fe gafwyd amrywiaeth ddiddorol ac hanesyddol gan gynnwys pwddin cneifio ar fynydd Tregaron cyn oes y peiriannau modern. Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad ac am brydiau blasus i ddod gan Mary Jones.

Rhoddyd y raffl gan Gwyneth

Evans ac fe’i henillwyd gan Irene. I ddiweddu’r cyfarfod cafwyd cwpanaid o de a bisgedi wedi eu rhoddi gan Deborah a Gwyneth Jones.

Fe fydd y cyfarfod nesaf yn Ysgol Y Dderi ar Dachwedd 16eg pan fydd Claire Parsons yn arddangos ei gwaith crefft.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau calonnog i Mr a Mrs Tudur Jones, Penybanc ar ddathlu achlysur arbennig iawn. Gobeithio y cewch fwynhau blynyddoedd eto a iechyd ac hapusrwydd.

Diolch

Dymuna Rich a Dilys, 6 Godre’r Coed, Olmarch ddiolch am y llu cardiau, anrhegion a’r arian gawsant adeg dathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar. Gwerthfawrogyd y cyfan yn fawr iawn. Diolch arbennig i’r plant, y plant yng nghyfraith a’r wyrion am y parti annisgwyl a drefnwyd ganddynt a gwneud yr achlysur yn ddiwrnod i’w gofio.

Diolch o galon i bawb.

Llangybi

Ysgol Y Dderi



Bore Hapusrwydd y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol y Dderi. Y plant yn canu a'r rhieni a ffrindiau'n mwynhau paned a chacen cyn gollwng môr o falwns melyn. Defnyddir yr holl elw at brynu cyfarpar ar gyfer plant y Cyfnod Sylfaen.

Cynhaliwyd cyfarfod yn Ysgol Y Dderi gyda'n ffrindiau o Ewrop yn ystod mis Hydref. Daeth athrawon o Slofenia, Latfia, Norwy, Yr Eidal a Gwlad Groeg er mwyn gwerthuso gweithgareddau'r llynedd a chynllunio gweithgareddau cyffrous am y flwyddyn i ddod. Rydym yn edrych ymlaen at gydweithio gyda'n hysgolion ledled Ewrop, ac mi fydd disgyblion blwyddyn 6 yn cael y cyfle i deithio i Norwy a Slofenia yn ystod y flwyddyn.

Bu blwyddyn 1 a 2 yn mwynhau gwersi yng Nghoedwig Longwood yn ddiweddar. Cafwyd diwrnodau bendigedig yn ymarfer eu sgiliau llythrennedd a rhifedd allan yn yr awyr agored.

Daeth Mr Urdd i ymweld â'r ysgol ar ein Diwrnod Coch Gwyn a Gwyrdd. Wrth dalu ychydig i wisgo'r lliwiau arbennig yn lle ein gwisg ysgol am ddiwrnod, llwyddwyd i godi arian tuag at y mudiad yn y cylch.

Diolch i Mr Burgess am ddod i gasglu blychau Nadolig oddi wrth ddisgyblion Y Dderi. Mae Mr Burgess yn mynd â'r anrhegion allan i blant llai ffodus yn Romania. Rwy'n siŵr y bydd plantos bach Romania wrth eu boddau â'r blychau anrhegion.

Llongyfarchiadau i ferched blwyddyn 5 a 6 a fu'n cynrychioli'r ysgol mewn cystadleuaeth Rygbi Tag yr Urdd yn Aberaeron yn ddiweddar. Diolch hefyd i Jac, Swyddog Rygbi'r cylch am ei holl waith hyfforddi. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad.

Diolch i'n heddweision lleol am gynnal gweithdy diogelwch cyn Calan Gaeaf a noson Tân Gwylt. Cafwyd trafodaeth dda ar y peryglon sydd yn wynebu ein plant yn ystod yr adeg yma o'r flwyddyn. Cadwch yn ddiogel!

"Hapusrwydd" oedd thema y Cyfnod Sylfaen yn ystod yr hanner tymor yma, ac yn uchafbwynt i'r gwaith cynhaliwyd cyngerdd i'n rhieni er mwyn rhannu'n hapusrwydd. Rhyddhawyd dros 500 o falwns yn ystod y bore, a chafodd pawb y cyfle i fwynhau yng nghwmni ein gilydd dros baned a chacennau. Bore bendigedig.



Cynhaliwyd tri gwasanaeth o ddiolchgarwch yn ôl yr arfer. Bu disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn Eglwys Llangybi yn cynnal gwasanaeth gyda'r Parchedig Elizabeth Arnold Davies, tra oedd disgyblion hŷn yr ysgol yn cynnal gwasanaeth yn Eglwys Betws Bledrws gyda Canon Andy. Diolch i'r ddau am y croeso cynnes a gawsom. Cynhaliwyd y gwasanaeth olaf ar safle'r ysgol gyda holl blant yr ysgol yn diddanu ein ffrindiau o Hafan Deg. Diolch o galon iddynt am wneud yr ymdrech i ddod atom. Gweinwyd te a chacennau dan ofal disgyblion y Clwb Coginio. Blasus iawn wir! Codwyd £192 tuag at elusen Tŷ Hafan.



Yn rhan o'u thema "Drachtiau" bu disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn cymryd rhan mewn gweithdy "Meddyginiaeth a Phlanhigion" yn y Gerddi Botaneg Cenedlaethol. Aethon nhw ymlaen i gerdded i fyny tuag at Lyn y Fan Fach, a mwynhau clywed y chwedl enwog am y forwyn wrth lan y llyn. Nôl wedyn i bentref Myddfai i glywed am ddisgynyddion byd enwog y forwyn, sef Meddygon Myddfai. Cafwyd croeso arbennig yn y Ganolfan Ymwelwyr ac yn yr Eglwys. Bu'r disgyblion yn ymchwilio ryseitiau'r meddygon sydd yn ymddangos gyntaf yn Llyfr Coch Hergest. Rhaid oedd mynd ati wedyn i greu drachtiau ein hunain – Sawr Dysgu, canhwyllau oren ac Eli Melyn Mair yn defnyddio cynnyrch o ardd yr ysgol.



"Esgryn, Gwaed a Darnau Gwaedlyd" yw thema blwyddyn 3 a 4 am yr hanner tymor, sydd yn canolbwyntio ar y corff. Pleser mawr oedd cael gwahodd Michael Morgans i'r ysgol i gynnal gweithdy Cymorth Cyntaf gyda'r plant. Roedd pawb wedi elwa ac wedi dysgu llawer.



Eleni unwaith eto bu'r ysgol gyfan yn dathlu diwrnod T Llew Jones mewn amryw ffyrdd. Yn y llun gwelir disgyblion blwyddyn 3 a 4 yn gwrando ar straeon a cherddi allan yn y goedlan ac yn gwisgo'u coronau i ddathlu bod T Llew Jones yn dal yn Frenin Llenyddiaeth Plant Cymru.



Cofrestrwch ar ein gwefan gymunedol
www.clonc360.cymru
er mwyn cyfrannu eich stori chi.

Llanwnnen

Ysgol Llanwnnen

Diolch i'r holl blant a ddaeth â bocsys sgidiau yn llawn anrhegion i blant mewn gwledydd llai ffodus o dan gynllun 'Joy in a Box'.

Cafwyd noson o ddryswch hwyliog yn ddiweddar wrth i rieni'r ysgol deithio o amgylch y plwyf yn eu ceir yn chwilio am atebion i bosau yr Helfa Drysor. Yn fuddugol ar y noson roedd Teulu Jones' Dihewyd a'u gwobr nhw yw cael trefnu'r Helfa Drysor y flwyddyn nesaf. Diolch i staff yr ysgol am drefnu noson arbennig.

Bu'r plant yn gwisgo dillad coch, gwyn a gwyrd yn ddiweddar er mwyn codi arian at yr Urdd.

Ddydd Gwener, Medi y degfed ar hugain aeth yr ysgol i gyd am dro i lawr i Neuadd yr Eglwys er mwyn cefnogi Bore Coffi Macmillan. Roedd Sali, gynt o'r siop, wedi trefnu'r digwyddiad a braf oedd cael cefnogi. Roedd y neuadd yn orlawn ac roedd y plant wedi mwynhau eu sgwash a'u cacennau. Codwyd £779.01 yn ystod y bore.

Llongyfarchiadau i'r tîm 5 bob ochr, sef Rhys Williams, Rhodri Gregson, Nat Griffiths, Gruff Tomos, Amy Wilkins a Beca Jones ar eu llwyddiant yng nghystadlaethau cylch yr Urdd. Enillodd y tîm bob un o'u gemau ac fe ânt ymlaen yn awr i gynrychioli'r cylch yn y rownd nesaf. Da iawn chi.

Bu plant dosbarth Miss Davies a Mrs Mills, ynghyd â disgyblion o ysgolion Llanwenog a Chwrtnewydd, ar ymweliad addysgiadol â Chanolfan y Barcud a Gorsaf Dân Tregaron yn ddiweddar i ddysgu am fywyd ysgol yn ystod cyfnod Oes Fictoria a diogelwch gyda tân. Roedd y trip yn un arbennig lle dysgodd y disgyblion lawer. Diolch i Mrs Mills am drefnu.

Mae newyddion yr ysgol i'w gweld ar gyfrif trydar YSGOL DYFFRYN CLEDLYN. Ymunwch â'r cyfrif trydar yma er mwyn clywed hanes yr ysgol wrth iddo ddigwydd!

Dyddiadau i'r dyddiadur Marchnad Mentergarwch Nadolig – 1af o Ragfyr, Neuadd yr Ysgol. 3.30yp - 5.00yh

Sioe Nadolig - 7fed o Ragfyr. Neuadd Eglwys Llanwnnen. 2.00yp

8fed o Ragfyr. Neuadd Eglwys Llanwnnen. 7.00yh.

Sefydliad y Merched

Nos Lun, 3 Hydref cynhaliwyd Cyfarfod Blyneddol

Cyffredinol Sefydliad y Merched Llanwnnen a chafwyd cwmni Mrs Brenda Wright, Cadeirydd y Sir yn ystod y noson. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Avril Jones, ein Llywydd a chafwyd adroddiad ganddi ar weithgareddau'r flwyddyn a aeth heibio. Cafwyd adroddiad gan Ann Hughes, yr Ysgrifenyddes hefyd yn ogystal ag adroddiad ar drafodion y cyfrifon gan Alice Jones, y Trysorydd. Cyhoeddodd Alice ei bod yn ymddeol o'i swydd fel Trysorydd ar ôl ei gyflawni am yn agos at drideg mlynedd a diolchodd y Llywydd iddi am ei gwaith trwyadl ar hyd yr amser. Yna aethpwyd ati i ethol swyddogion am y flwyddyn 2016/17: Llywydd – Avril Jones; Is-Lywydd – Gwen Davies; Ysgrifenyddes – Ann Hughes; Trysorydd – Ceinwen Roach; Yng ngofal y te a'r raffl – Doris a Glenys Jones; Trefnydd y Rhaglen – Jean Jones; Gohebydd y Wasg – Carol Thomas; Cynrychiolwyr ar Bwyllgor Lles y Pentref – Avril Jones a Gwen Davies. Ar ddiwedd y noson mwynhaodd pawb baned o de a bara brith a chynhaliwyd y gystadlaethau fisol, sef hoff fwg. Y beirniad oedd Mrs Wright a'r enillydd oedd Gwen Davies gydag Irene Jackson yn ail ac Avril Jones yn drydydd. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Lun, 7 Tachwedd.

Canwr a Chyfrifydd

Nos Sul, 9 Hydref bu Aled Wyn Thomas, 1 Sycamore Terrace, yn perfformio fel unawdydd gyda Chôr Aberteifi a cherddorfa o 40 dan arweiniad Henry Ward yn Neuadd y Dderwen, Rhosygilwen, Cilgerran. Cafodd y fraint o ganu rhan y tenor yn yr Oratorio 'Y Cread' gan Haydn – profiad bendigedig. Dyma'r eilwaith i Aled berfformio fel unawdydd gyda'r Côr, gan y bu'n canu rhan y tenor ym mherfformiad Offeren Dvořák yn y cywair D fwyaf yn Eglwys y Santes Fair, Aberteifi ym mis Ebrill. Mae wedi derbyn gwahoddiad i ganu gyda nhw eto mewn amrywiaeth o weithiau Nadoligaidd yn Eglwys Llandudoch ar 11 o fis Rhagfyr. Mae'r canu yn cyd-blethu'n dda gyda'i waith bob dydd fel cyfrifydd yng Nghaerdydd. Llongyfarchiadau iddo hefyd am gymhwyso fel Cyfrifydd Siartredig ddiwedd mis Hydref.

Cwrtnewydd

Ysgol Cwrtnewydd

Mae hanner tymor arall wedi hedfan heibio ym mywyd yr ysgol yma yng Nghwrtnewydd.

Trefnodd plant y Cyngor Ysgol brynhawn Macmillan ar Fedi'r 29ain. Croesawyd pawb yn wresog gan gadeiryddes y Cyngor Ysgol sef Luned Jones a braf oedd gweld y neuadd yn orlawn a phawb yn barod iawn i gyfrannu tuag at yr elusen. Codwyd swm arbennig iawn o £483.30. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth ac am brynhawn hwylus.

Daeth cynrychiolydd o'r frigad dân i siarad â phlant blyneddodd 2, 5 a 6 am reolau a diogelwch tân. Cafodd y plant gyfle i wisgo dillad ac offer y frigad dân.

Cynhaliwyd diwrnod coch, gwyn a gwyrd yr Urdd yn yr ysgol ddechrau mis Hydref, cafodd y plant gyfle i wisgo'r lliwiau yma a braf oedd cael ymweliad gan Mr Urdd. Bu'r plant yn canu a sgwsio â Mr Urdd. Codwyd swm o arian da ar gyfer gwaith yr Urdd yng Ngheredigion.

Bu plant y Cyfnod Sylfaen yn ffodus iawn i gael mynd ar drip addysgiadol gyda phlant ysgolion Llanwnnen a Llanwenog i Ganolfan y Barcud Coch ac i orsaf Brigad Dân, Tregaron. Bu'r plant yn dysgu am fywyd ysgol yn yr hen ddyddiau a chafodd rhai ohonynt gyfle i eistedd mewn injan dân. Mwynhaodd y plant y profiadau yn fawr iawn.

Erbyn hyn mae Luned Jones, disgybl o flwyddyn chwech, wedi bod am ddiwrnodau pontio i ysgol hŷn Bro Pedr. Mae Luned wedi cael cyfle i gael gwersi Gwyddoniaeth, Cymraeg a Dylunio a Thechnoleg.

Mae clwb yr Urdd yn rhedeg yn wythnosol yn yr ysgol. Mae'r plant wedi cael amrywiaeth o weithgareddau - chwaraeon, gweithgareddau diolchgarwch, gêmâu parasiwt a bingo.

Mae'r plant wedi bod wrthi yn creu bocsys anrhegion Nadolig ar gyfer plant Romania. Cyflwynwyd y bocsys i Richard Burgess a bydd yntau yn mynd â hwy i ben eu taith.

Braf oedd clywed newyddion gwych bod Megan Davies, disgybl o flwyddyn pedwar, wedi ennill cystadlaethau creu poster ar 'Taith y Llaeth'. Cystadlaethau oedd hon i blant Ceredigion, Sir Gâr a Phenfro o dan ymbarel y Sioe Laeth yng Nghaerdydd. Megan oedd enillydd Ceredigion a chafwyd cyflwyniad yn yr ysgol gan gynrychiolwyr o'r Sioe Laeth. Enillodd Megan docynnau i'r sioe, £75 i'r ysgol a thrip i holl blant yr ysgol i fferm odro a ffatri gaws. Bydd Megan yn cael ei gwobrwyo eto yn y Sioe Laeth

ddydd Mawrth, Hydref 25ain, a gellir gweld copi o'i phosteri yn rhaglen y sioe. Llongyfarchiadau mawr i ti Megan!

Daeth rhagor o lwyddiant i'r plant hefyd wrth iddynt gystadlu yng nghystadlaethau Eisteddfod y Papurau Bro. Tasg y plant oedd creu llun pensil o gastell. Mi wnaeth holl blant yr ysgol gystadlu a braf oedd clywed y newyddion bod Megan Davies wedi ennill, Luned Jones yn ail ac yn gydradd drydydd oedd Elan Jenkins ac Elen Sisto-Jones. Wel, da iawn ferched!

Daeth PCSO Adam a PCSO Siân o'r heddlu i siarad â'r plant am beryglon Calan Gaeaf a diogelwch Tân Gwyllt. Cafwyd cwis bach am beryglon.

Cynhaliwyd ein Cwrdd Diolchgarwch ar ddydd Mercher olaf yr hanner tymor. Ymunodd y rhieni a ffrindiau'r ysgol gyda ni yn y cwrdd. Aed â chyfraniadau o ffrwythau a llysiau i Gartref Preswyl Cwmaur, Llanybydder.

Byddwn yn cynnal ein cyngerdd Nadolig ar Ragfyr y 7fed. Croeso cynnes i bawb.

Os am ddilyn digwyddiadau'r ysgol ewch i 'trydar @ DyffrynCledlyn'.

Priodas Aur

Llongyfarchiadau mawr i Elgan a Brenda Jones, Gwel-y-Cledlyn a ddathlodd eu Priodas Aur ar Hydref 22ain. Gobeithio eich bod wedi joio'r dathliad a iechyd da i chwi eto am flynyddoedd lawer.

Pen-blwydd arbennig

Yn ystod dechrau mis Tachwedd fe fydd Sirian Davies, Coedlannau fach yn dathlu pen-blwydd arbennig. Gobeithio y cei ddiwrnod i'r brenin!

Diolch

Dymuna Elgan a Brenda, Gwêl y Cledlyn ddiolch i bawb am y cardiau, blodau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu Priodas Aur yn ddiweddar.

TEIARS

HUW LEWIS



TYRES


TEIARS


RABCS


BATHS


GWACAWYR

HUWLEWISTYRES.COM

LLANBEDR PONT STEFFAN

01570 422221



Enw: **Nia Gwyther**
Oed: 19
Pentref: Betws Bledrws
Gwaith: Aprentis Trydanwr
Peirianeg
Partner: Single pringle
Teulu: Teleri (mam), Neil (dad) a Elin a Alis (Chwiorydd)

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
Ma 'na ormod. Ond o'n i'n joio mynd mas â'r guinea pigs am dro mewn prams gyda Elin a Alis pan o'n ni'n byw yn Neyland.

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.
Scooby - Doo

Yr eiliad o'r embaras mwyaf.
Mynd i ysgol feithrin yn Llangybi ac anghofio gwisgo knickers gyda'n sgryt!

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
Mae Elin a Alis wastod yn iawn.

Taset ti'n gallu mynd nôl mewn amser, beth fyddet ti'n dweud wrthot ti dy hun yn 16 oed?
I beidio gwrando ar gyngor pawb.

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet ti eisiau bod ar ôl tyfu?
Dynes dân

Beth oedd y peth ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun?
Yn côr Ceredigion, pan o'n i yn blwyddyn 6 a daliodd yr arweinydd fi, Kelly a Del yn siarad a stopiodd pawb ganu, troi rownd a dachre gweiddi!

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?
Ar y Cae Rugby neu mas yn yr awyr iach

Beth yw dy lysenw?
'Knees'.

I ba gymeriad enwog wyt ti'n debyg?
Katniss Everdeen (Jennifer Lawrence)



Pwy yw dy arwr?
Delyth Ffosyffîn

Taset ti'n anifail, pa anifail fyddet ti a pham?
Aderyn, er mwyn hedfan o le i le ar draws y byd.

Y peth gorau am yr ardal hon?
Bod yn gadeirydd CFfi Bro'r Dderi

Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?
Hunanol

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?
Trafaelu'r byd neu agor campfa Crossfit a helpu pobol sydd yn byw mewn gwledydd sydd â rhyfeloedd a tlodi.

Beth sy'n codi ofn arnat?
Clowniau

Pryd chwydaist ti ddiwethaf?
Bob bore Sul

Ble oedd y lle mwyaf annisgwyl i ti ddihuno ynddo yn y bore?
Coedwig yn Tennessee

Am beth wyt ti'n breuddwydio?
Bwyd

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?
Cael fy nerbyn i neud cwrs Peirianeg Drydanol ac Electroneg ym Mhrifysgol De Cymru.

Ac yn bersonol?
Heicio y Grand Canyon or top i'r gwaelod mewn un diwrnod!

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?
Rugby, Crossfit a mynd i'r Gym

Disgrifia dy hun mewn tri gair.
Anhrefnus, cyfeillgar, gweithgar

Beth yw barn pobl eraill amdanat ti?
Bach yn wyllt a llawn drygioni

Pa gar wyt ti'n gyrru?
Peugeot 208

Beth yw dy hoff wisg?
Trainers, hoody a shorts

Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?
Delyth Mair Evans, Tan y Graig. Ni 'di bod mas ar anturiaethau ers o'n ni'n 6 oed o amgylch Betws a Silian!

Beth wyt ti'n ei ddarllen?
Dim ond gwaith Prifysgol, sdim llawer o amser gyda fi rhwng popeth

Pa ran o dy gorff yw dy hoff ran?
Pen-ôl

Y gwyliau gorau?
Mynd i America dros y Haf a thrafaelu o'r dwyrain i'r gorllewin. Roedd e wir yn brofiad bythgofiadwy a chwrdd â phobol arbennig nath newid y ffordd rwy'n edrych ar fywyd.

Pa dair gwlad yr hoffet fynd iddyn nhw cyn marw?
Seland Newydd, Canada a Kenya.

Pa bwerau arbennig fyddet ti'n hoffi eu meddu?
Gallu symud trwy amser

Beth yw'r peth diwethaf wyt ti'n 'neud cyn mynd i'r gwely?
Squats

Ble fyddi di mewn deng mlynedd?
Rheolwr peirianeg drydanol, yn trafaelu'r byd gyda fy ngwaith

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:

**Jason Thomas
Silian**

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw
Cyfeiriad

Cod post
Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

9			6			
6	1		4	7		2
7	5			1		
5	4					
3			7	6		2
						8 6
			5			9 7
		9	3	4		6 8
			9			4

Swdocw Hydref:

Llongyfarchiadau i **Eirian Jones, Bro Teifi, Alltyblaca** a diolch i bawb arall am gystadlu: Bethan Williams, Neuadd Fryn, Llanybydder; Eurwyn Davies, Heol-y-Gaer, Llanybydder ac Augusta Davies, Kings Mead, Llanbed.

2	8	6	9	7	3	4	1	5
7	5	3	8	4	1	9	6	2
4	9	1	2	6	5	7	8	3
1	2	8	7	3	4	5	9	6
3	6	9	5	2	8	1	7	4
5	4	7	6	1	9	2	3	8
8	3	2	1	5	7	6	4	9
6	7	4	3	9	2	8	5	1
9	1	5	4	8	6	3	2	7



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Wel helo blant, sut ydych chi? Mae mis Tachwedd wedi cyrraedd eleni eto ac mae noson Guto Ffowc yn agosau! 'Dw i wrth fy modd yn gweld y tân gwyllt ar noson Guto Ffowc ac mi fydda i a'm ffrindiau i gyd yn brysur iawn yn creu coelcerth enfawr. Ydych chi'n hoffi gwylio tân gwyllt? Ble fyddwch chi'n mynd i'w wyluo eleni? Cofiwch blant mae'n bwysig i chi fod yn ofalus ar Noson Guto Ffowc gan fod tân gwyllt yn gallu bod yn beryglus iawn. Rhaid cofio gwisgo menyg ac aros yn agos iawn i'ch rhieni. Cofiwch fwynhau hefyd!

Bu nifer ohonoch chi'n brysur iawn yn ystod y mis yn lliwio llun yr Hydref ac roedd ôl ymdrech i'w weld ym mhob un o'r lluniau. Da iawn chi gyd - penigamp! Llongyfarchiadau i bawb wnaeth gystadlu yn enwedig i Rhun Jones o Gwmann, Dion Siencyn ac Anna Siencyn o Drefach a Betsan Gwladys o Langeitho am luniau lliwgar a thacius. Roedd rhain i gyd yn wych. Ond ar y brig y mis hwn mae Mari Edwards, Awelteifi, Cysgod y Bryn, Cellan. Diolch Mari am ddefnyddio lliwiau'r hydref i greu llun ffantastig. Llongyfarchiadau mawr i chi gyd.

Ewch ati nawr i liwio llun mis Tachwedd! Danfonwch nhw ataf i cyn dydd Llun, Tachwedd 21ain.

Hwyl am y tro,



Enillydd
y mis!

Mari
Edwards

Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC,
dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne



CAE CHRISTMAS (88)


Dyma enw cae ar fferm y Gelli, Llanllwni. A'r Nadolig ar y trothwy, mae'n enw addas iawn inni ei ystyried y mis hwn.

Mae Christmas yn digwydd yn weddol gyffredin fel elfen mewn enwau lleoedd yn Lloegr. Ceir CHRISTMAS COPPICE yn swydd Rhydychen a'r awgrym yw bod coed celyn (a gysylltir yn draddodiadol â'r Nadolig wrth gwrs) yn ffynnu yno. Yn nes atom ni yn yr ardal hon mae coedlan o'r enw CHRISTMAS WOOD ym Myddfai.

Nodwedd amlycaf CAE CHRISTMAS ar fferm y Gelli yw'r gelynen sylweddol iawn sy'n tyfu yno. Gall celynen yn ei llawn dwf gyrraedd uchder o 40 troedfedd ond dybiwn i fod y gelynen hon rywfaint yn llai na hynny o ran maint. Mae'n cynnig cysgod gwerthfawr i ddyn ac i greaduriaid. Ac roedd y gelynen yn goeden o gryn bwys yn yr hen gymdeithas: gellid tocio canghennau uchaf coed celyn sylweddol a bwydo'r dail i greaduriaid.

Mae dail pigog y gelynen ar eu peryclaf yn agos at y ddaear er mwyn amddiffyn y gelynen rhag rhaib creaduriaid. Dyna drefn natur. Ond uchaf i gyd yw'r goeden lleiaf pigog yw'r dail. Fel rheol dyw'r dail uchaf ddim yn bigog o gwbl ac felly yn ddeniadol ar gyfer porthiant i ddefaid a gwartheg a cheirw.

Yn Bewholme yn Swydd Efrog ceir YULE PIE a hwnnw'n cyfeirio at dir o ansawdd steclslyd neu gorsiog.



Celynen Cae Christmas

Yn swydd Surrey mae CHRISTMAS PIE FARM a gellir cysylltu'r enw Christmas â theulu â'r cyfenw hwnnw a oedd yn byw yno. Mae'r cyfenw Christmas i'w gysylltu'n wreiddiol ag East Anglia ac mae'n gyffredin yn ardal Colchester o gyfnod cynnar.

Ac mae'r enw'n digwydd hefyd mewn amryw blwyfi yng ngogledd Sir Gaerfyrddin, ddiwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg gan gynnwys, Llanfihangel-ar-arth, Llanybydder, Pencarreg, Llansadwrn, Myddfai a Llanllwni.



Yn rhestrau degwm Llanllwni (1841) enw'r cae yw CAE NESA Tŷ CHRISTMAS sy'n gallu awgrymu fod Christmas yn yr achos hwn hefyd yn cyfeirio at enw teuluol, cartref teulu â'r cyfenw Christmas. Ceir Tŷ CHRISTMAS ym Myddfai yn ogystal.

Roedd sawl person â'r cyfenw Christmas yn byw ym mhlwyf Llanllwni. Mae cofnod i Mary Christmas, Trawscoed, un o dlodion y plwyf, dderbyn 6 phwys o wla ar un achlysur gan y Festri er mwyn gwneud blanced. Dro arall talodd y Festri gost ail-doi Trawscoed. Yn 1830 trefnodd y Festri bod Mary Christmas, Trawscoed, yn derbyn llwyth o goed tân.

Roedd un arall o Christmasiaid Llanllwni, John Christmas, yn byw yn Blaencwmiâr. Bu farw yn 1825 a'i gladdu ym mynwent yr eglwys.

Ond John Christmas arall o blwyf Llanllwni yw ein prif ddiddordeb ni. Mae'n greadur diddorol a thruenus. Ef, yn ôl pob tebyg, sy'n cael ei goffâu, gan yr enw CAE NESA Tŷ CHRISTMAS. Cawn ragor o fanylion amdano y tro nesaf.

Mae'r nodiadau misol hyn ar enwau lleoedd yn cael eu paratoi dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org enwaulleoedd@gmail.com

Eisteddfod C.Ff.I. Sir Gâr



Llefaru dan 16 – Lowri Davies, 1af [dde], Llefaru dan 21 – Owain Davies 1af [canol] a Sioned Howells 2il [chwith]. Roedd y tri yn dod o Glwb Llanllwni.



Dawnsio Disgo, C.Ff.I. Cwmann - 3ydd



Creu 'Geo-filter' Snapchat :- 1af – Siorol Howells, C.Ff.I. Llanllwni.



Deuawd neu driawd doniol, C.Ff.I. Llanllwni :- 3ydd – Sion Evans, Hefin Jones a Siorol Howells.



Elan Jones, C.Ff. I. Cwmann - 3ydd Llefaru 16 neu Iau



Sian Elin Williams, C.Ff.I. Cwmann, 3ydd Llefaru 21 neu Iau

ARWYN VOBÉ
ACCOUNTANCY LTD. **ACCA**

CYFRIFYDD SIARTREDIG

Maesowen,
Rhydowen,
Llandysul,
Ceredigion.
SA44 4PY

- ❖ Cyfrifon Blynnyddol ac Interim
- ❖ Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau
- ❖ Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW
- ❖ Cyflogau a CIS
- ❖ Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!

Ffoniwch ni ar
07557 448234
neu

ebost arwyn@avaccountancy.cymru



Parti Llefaru, C.Ff.I. Cwmann - 3ydd

Elan a Beca, C.Ff.I. Cwmann - 2il yn y ddeuawd 26 neu Iau.



Meimo C.Ff.I. Llanllwni - 1af

Cadw'n Iach - Rhedeg a Rygbi



Buddugwyr plant Bl. 3 a 4 yn Ras Llanwenog.



Buddugwyr plant Bl. 7 a 8 yn Ras Llanwenog.



Ras Hwyl Llanwenog a gynhaliwyd yn yr ysgol brynhawn dydd Sadwrn, Hydref 22ain. Gweler y canlyniadau o dan adroddiad Sarn Helen.



Aelodau tîm dan 13 Clwb Rygbi Llambled yn edrych yn broffesiynol iawn yn eu cit newydd ar daith yn Y Bala a Dolgellau ddechrau'r mis. Diolch yn fawr iawn i'r noddwyr - contractwyr adeiladu David Holmes, NFU mutual, cangen Aberaeron a Thregaron, cwmni trafniadaeth Brian Thomas a chwmni storio a dosbarthu Peter Jones a'i feibion. Dyma nhw yn cyflwyno'r cit i'r tîm.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Breics * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY
T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA
Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS
Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aiffeddiannu am eich cartref.